

Ymateb i Adroddiad Cynnydd 2023 y Pwyllgor Newid Hinsawdd: Lleihau allyriadau yng Nghymru

Rhagfyr 2023

ISBN: 978-1-83504-978-5

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 45(7) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Cyflwyniad..... | 3 |
| Ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau a godir gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd | 5 |
| Amaethyddiaeth..... | 5 |
| Defnydd tir | 9 |
| Gwastraff..... | 12 |
| Trafnidiaeth | 16 |
| Adeiladau | 23 |
| Pŵer | 29 |
| Diwydiant | 31 |
| Sector cyhoeddus..... | 33 |
| Nwyon wedi'u fflworeiddio..... | 36 |
| Prosesau gwaredu wedi'u peiriannu..... | 38 |
| Trawsbynciol..... | 40 |
| Ymateb Llywodraeth y DU i asesiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd o'r meysydd risg uchel .. | 46 |

Cyflwyniad

Ar 6 Mehefin cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd (y Pwyllgor) ei ail adroddiad cynnydd ar leihau allyriadau yng Nghymru.¹ Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod Cymru wedi cyrraedd ei tharged ar gyfer 2020 a'i chyllideb garbon gyntaf (2016-20), ac y "cafwyd rhai camau cadarnhaol yng Nghymru, gyda ffocws i'w groesawu gan Weinidogion ar sgiliau, swyddi ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer y cyfnod pontio Sero Net." Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor hefyd y byddai angen cyflymu'r gwaith o leihau allyriadau er mwyn sicrhau bod Cymru'n cyrraedd ei chyllidebau carbon a'i thargedau sero net. Cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd Ddatganiad Ysgrifenedig a oedd yn croesawu'r adroddiad ac yn ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau anodd ar y llwybr tuag at sero net.²

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cyflwyno ymateb i'r pwyntiau a godir yn adroddiad cynnydd y Pwyllgor gerbron y Senedd cyn pen chwe mis ar ôl cael yr adroddiad. Mae'r ddogfen hon yn cyflawni'r ddyletswydd statudol honno.

Ymateb i'r 'pwyntiau a godir' yn adroddiad y Pwyllgor

Mae Pennod 2 adroddiad cynnydd y Pwyllgor yn cynnwys eu hasesiad o'r cynnydd ym mhob sector ac is-sector allyriadau. Ar draws pob sector, mae adroddiad y Pwyllgor yn gwneud 58 o argymhellion i Lywodraeth Cymru ac yn nodi 19 o faterion eraill i fynd i'r afael â nhw. Er bod gan bob argymhelliad ddyddiad cau, nid yw'r adroddiad yn nodi dyddiadau cau i roi sylw i'r materion.

Mae Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog yn croesawu'r ffaith bod adroddiad y Pwyllgor yn tynnu sylw unwaith eto at rôl hollbwysig Llywodraeth y DU o ran mynd i'r afael ag allyriadau Cymru mewn llawer o sectorau carbon-ddwys. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys asesiad y Pwyllgor o'r risgiau i gynnydd mewn meysydd polisi amrywiol yng Nghymru oherwydd gweithredoedd Llywodraeth y DU, a sgoriwyd fel rhai isel, canolig neu uchel.

At ddibenion yr ymateb hwn, rydym wedi diffinio 'y pwyntiau a godir' yn adroddiad y Pwyllgor fel yr argymhellion, y materion i fynd i'r afael â nhw a'r meysydd hynny lle ceir risg uchel i gynnydd Cymru oherwydd gweithredoedd Llywodraeth y DU. Rydym wedi gofyn am ymateb Llywodraeth y DU i asesiad y Pwyllgor o'r meysydd risg uchel ac wedi cael yr ymateb hwnnw.

Data allyriadau 2021

Pan gyhoeddwyd adroddiad cynnydd y Pwyllgor ym mis Mehefin, roedd y data allyriadau diweddaraf a oedd ar gael ar gyfer 2020. Ers hynny, cyhoeddwyd data sy'n dangos bod allyriadau amcan Cymru wedi gostwng 35% yn 2021 wrth gymharu ag allyriadau'r flwyddyn waelodlin.³ Mae hyn yn cymharu â'r gofyniad statudol i leihau allyriadau 37% ar gyfartaledd

¹ [Adroddiad Cynnydd:Lleihau allyriadau yng Nghymru – Pwyllgor Newid Hinsawdd](#) (5 Mehefin 2023)

² [Datganiad Ysgrifenedig:Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd:Lleihau allyriadau yng Nghymru 2023](#) (9 Mehefin 2023)

³ [Datganiad Ysgrifenedig:Cyhoeddi Data Allyriadau ar gyfer 2021](#) (22 Mehefin 2023)

dros yr ail gyllideb garbon (2021-25), a'r angen a nodwyd gennym yn Sero Net Cymru i ragori ar y targed hwnnw.⁴

Ein cynllun nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chynllun ar gyfer Cyllideb Garbon 3 (2026-30) yn 2026, sy'n cyd fynd â chylch etholiadol nesaf y Senedd.

Rôl Llywodraeth y DU

Rydym yn dal i bwysu ar Lywodraeth y DU i gymryd camau a fydd yn galluogi datgarboneiddio mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, ar yr un pryd â hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu rhagor o fecanweithiau i ysgogi datgarboneiddio ac adnewyddu tai ar raddfa fawr, a chreu'r pecynnau cyllid sydd eu hangen i alluogi ac i gymell diwydiant i ddatgarboneiddio.

Mewn ymateb i gyhoeddiadau'r Prif Weinidog ar 20 Medi,⁵ ysgrifennodd Llywodraethau Cymru a'r Alban ar y cyd at Lywodraeth y DU yn gofyn am uwchgynhadledd lefel uchel i'r pedair gwlad, o dan gadeiryddiaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, i fynd i'r afael ag effaith y cyhoeddiadau ar dargedau pob gwlad a oedd yn eu rhwymo'n gyfreithiol.

⁴ [Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 \(2021–2025\)](#), tud10

⁵ [Araith y Prif Weinidog ar Sero Net: 20 Medi 2023](#)

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau a godir gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd

Amaethyddiaeth

| Cyfeirnod Y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------------|---|------------------|--|
| R2022-043 | <p>Darparu manylion ar sut y bydd cymorthdaliadau a chynlluniau amaethyddol ôl-PAC yng Nghymru yn targedu cymhellion a chyflawni ar gyfer lliniaru hinsawdd ochr yn ochr â nodau amgylcheddol ehangach fel addasu i newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.</p> <p>BLAENORIAETH Y PWYLLGOR</p> | 2022 HWYR | <p>DERBYN</p> <p>Mae cymorth Llywodraeth Cymru i'r sector amaethyddol yn cyd-fynd â chyflawni Cymru Sero Net a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru).</p> <p>Mae'r cynlluniau grant cyfalaf presennol barhau yn darparu cymorth ar gyfer gweithredu cadarnhaol, sy'n cyd-fynd â'r Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy sydd wedi cael eu corffori yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru).</p> <p>Daeth Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) yn gyfraith ym mis Awst 2023 a sefydlodd bedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy i fod yn sail i gymorth yn y dyfodol (ariannol ac anariannol). Mae'r amcanion yn ymwneud â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, addasu i newid hinsawdd a'i liniaru, cynnal gwytnwch ecosystemau a gwarchod adnoddau diwylliannol. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried sut mae polisiau yn y dyfodol yn cyfrannu orau at yr amcanion hyn. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw'r cynllun mawr newydd cyntaf i gael ei lunio ar sail yr amcanion hyn.</p> |

| | | | |
|-----------|--|----------|---|
| R2023-033 | Symud y tu hwnt i natur wirfoddol cynlluniau disodli'r PAC presennol drwy osod llinell sylfaen reoleiddiol gref sy'n cryfhau rheolau fel y rhai o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol ac yn eu cadw yn neddfwriaeth Cymru. | 2024 | <p>DERBYN YN RHANNOL</p> <p>Rydym yn parhau i weithio ar y sail y bydd cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn wirfoddol. Fodd bynnag, rydym yn ymgymryd â diwygiadau i'r llinell sylfaen reoleiddiol, gan gynnwys y rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) newydd. Rydym yn cydnabod yr angen am newidiadau pellach dros amser i sicrhau bod y llinell sylfaen reoleiddiol yn briodol.</p> |
| R2023-034 | <p>Mynd i'r afael ar fyrder â'r bwloch ariannu ar gyfer camau rheoli tir newydd yn y dirwedd ffermio ar gyfer y flwyddyn 2024, rhwng y Cynllun Glastir yn dod i ben ddiwedd 2023 a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd sy'n dechrau yn 2025, er mwyn sicrhau nad yw'r cyflawni'n colli momentwm.</p> <p>BLAENORIAETH Y PWYLLGOR</p> | Ch3 2023 | <p>DERBYN</p> <p>Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru gynllun amaeth-amgylchedd interim.</p> <p>Ym mis Medi, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai'r cylch ceisiadau ar gyfer Cynllun Cynefinoedd Cymru ar agor rhwng 29 Medi a 10 Tachwedd.⁶ Bydd Cynllun Cynefin Cymru yn cefnogi'r gwaith o reoli cynefinoedd yn gynaliadwy, lle nodwyd y rhain drwy ddefnyddio data cynefinoedd a gyhoeddwyd ar MapDataCymru. Bydd ceisiadau'n cael eu sgorio a'u rhoi mewn trefn i alluogi proses ddethol agored, wrthrychol a thryloyw. Bydd rhai haenau gwrthrychol, ee clustogfeydd o amgylch safleoedd wedi'u dynodi, yn cael eu defnyddio i wella sgoriau i sicrhau bod y cymorth yn cael ei</p> |

⁶ [Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Cynefin Cymru 2024/25 \(25 Medi 2023\)](#)

| | | | |
|-----------|--|---------|--|
| | | | ddarparu lle bydd yn arwain at y manteision mwyaf yn gyntaf. |
| R2023-036 | Cynnal a gwella cymhellion i gefnogi amaeth-goedwigaeth a pherthi yn nhirwedd ffermio Cymru yn ystod y cyfnod pontio i'r fframwaith ôl-PAC newydd. Plannu coed ar 2% o dir fferm erbyn 2025 tra'n cynnal ei brif ddefnydd, gan godi i 5% erbyn 2035, ac ymestyn perthi 20% erbyn 2035 a rheoli perthi presennol yn well. | H1 2024 | DERBYN Yn 2022/23 fe wnaethom greu 1,190 hectar o goetir, bron i ddwywaith y swm yn y flwyddyn flaenorol. ⁷ Mae cynigion i gynyddu'r gorchudd coed i 10% o bob fferm yn ffocws pwysig ar gyfer datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rydym yn parhau i edrych ar gyfleoedd amaeth-goedwigaeth a hyrwyddo manteision coed ar gyfer iechyd da byw a diogelu'r pridd. |
| R2023-123 | Lle bo'n briodol, dylai'r SFS ystyried gwobrwyo'r buddion amgylcheddol y gall plannu cnydau ynni lluosflwydd eu sicrhau ar dir â'r yn yr un modd ag y mae Cymhelliant Ffermio Cynaliadwy Lloegr wedi cadarnhau y bydd. | 2024 | DERBYN YN RHANNOL Nid ydym yn cynnig cynnwys cnydau biomas yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy pan fydd yn dechrau yn 2025. Byddwn yn ystyried a yw biomas yn Gam Gweithredu Dewisol y dylid ei gynnwys yn ystod y cyfnod pontio. Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gefnogi cynhyrchu biomas yn uniongyrchol yn y cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd. Mae'r cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn cefnogi tan-hau cnwd indrawn sefydledig, ond nid y cnwd indrawn ei hun. Nid ydym yn pennu ar gyfer beth y dylid defnyddio'r cnwd indrawn ac felly gellid ei ddefnyddio fel biomas. Byddwn ond yn cefnogi'r |

⁷ [Ystadegau Coed 2023](#) (Forestry Research, t.41)

| | | | |
|-----------|---|------|---|
| | | | costau sy'n cael eu hysgwyddo a'r incwm sy'n cael ei ildio i sefydlu'r cnwd o laswelltau a chodlysiau sy'n cael ei dan-hau; mae'r tan-hau yn lleihau erydiad pridd a thrwytholchi maetholion ar ôl cynaeafu. |
| R2023-159 | Datblygu a chynnal deialog barhaus gyda chymunedau gwledig i ddeall ac ymgorffori eu barn mewn cyfnod pontio cyfiawn. | 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Drwy Cyswllt Ffermio, ein rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, mae cynnig cydlynol a modiwlaid ar gael i gefnogi busnesau i symud ymlaen drwy'r heriau a'r cyfleoedd presennol a'r rhai sydd ar y gorwel. Mae negeseuon allweddol a nodau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru ynghyd â gwybodaeth am ymchwil ac arloesi blaenllaw yn y diwydiant yn lledaenu gwybodaeth i sector ffermio Cymru er mwyn darparu dull effeithiol o drosglwyddo gwybodaeth, gan ysgogi newid mewn ymddygiad ac agweddau er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n mynd ar drywydd syniadau newydd.</p> <p>Yn dilyn Datganiad Ysgrifenedig ar y cyd gan Weinidogion Cymru yn 2022, rydym yn gweithio'n gynhyrchiol gydag amrywiaeth o randdeiliaid ar ddatblygu Polisi Cymunedau newydd i helpu cymunedau i fod yn fwy ffyniannus, wedi'u grymuso ac wedi'u cysylltu.⁸ Mae'r broses o ddatblygu'r polisi yn edrych ar sut gall Llywodraeth Cymru gefnogi camau i harneisio'r asedau a'r egni creadigol sydd ar gael mewn cymunedau lleol a</p> |

⁸ [Datganiad Ysgrifenedig: Polisi Cymunedau \(4 Gorffennaf 2022\)](#)

| | | | |
|-------|--|--------------|---|
| | | | helpu i ddatblygu atebion i'r materion sydd bwysicaf iddynt. |
| MATER | Mynd i'r afael â chyfyngiadau rheolwyr tir o dan denantiaethau busnes fferm i gefnogi eu hymgysylltiad â'r pecyn cymhorthdal ffermio newydd. | Amherthnasol | CYTUNO Roedd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, yn ogystal â Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, i sicrhau nad yw tenantiaid y ddwy Ddeddf yn cael eu cyfyngu'n annheg rhag cael cymorth i ffermwyr gan y llywodraeth yn y dyfodol. Bydd y darpariaethau newydd yn caniatáu i denantiaid atgyfeirio at gymrodeddu gydag anghydfodau penodol gyda'u landlord. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau am gydsyniad neu i amrywio telerau'r denantiaeth, pan fo'r cais hwnnw at ddibenion cael gafael ar gymorth ariannol o dan Ddeddf 2023. Cafodd cyfres o weithgorau rhanddeiliaid penodol eu cynnull i nodi'n benodol unrhyw heriau unigryw a mesurau lliniaru cysylltiedig ar gyfer ffermwyr sy'n denantiaid yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. |

Defnydd tir

| Cyfeirnod y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------------|---|---------|---|
| R2023-035 | Sicrhau bod cyllid a chymhellion yn cael eu pennu ar y lefel gywir i gyrraedd targed adfer mawndiroedd Llywodraeth Cymru o 1800 hectar y flwyddyn erbyn | H1 2024 | DERBYN YN RHANNOL Mae llwybr wedi'i gostio i gyrraedd targedau adfer mawndiroedd ar waith a bydd yn destun prosesau |

| | | | |
|-----------|---|--------------|--|
| | 2030. Erbyn 2035, dylai 58% o fawndiroedd fod o dan reolaeth adfer, a 79% erbyn 2050. Dylai holl fawn yr ucheldir fod o dan reolaeth adfer erbyn 2045. | | cyllideb arferol. Mae adolygiad o allyriadau gwaelodlin a mathau o gyflwr mawndir yn mynd rhagddo; gall ein llwybr datgarboneiddio mawndiroedd amrywio o'r canrannau yn argymhelliad y Pwyllgor. |
| R2023-050 | Cyhoeddi'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren. Dylai'r ddogfen hon osod targed uchelgeisiol ar gyfer defnydd cynyddol o bren a dyfwyd yng Nghymru mewn adeiladu a chyflwyno polisiau sy'n annog y defnydd o bren wrth adeiladu adeiladau yng Nghymru. | 2023 | DERBYN YN RHANNOL Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid ar gynyddu'r defnydd o bren a dyfir yng Nghymru yn y diwydiant adeiladu. Bydd y ffurflen derfynol a gymerir gan unrhyw strategaeth yn cael ei hystyried ymhellach gyda'r partneriaid hynny. |
| R2023-054 | Gweithredu strategaeth i fynd i'r afael â rhwystrau anariannol i gyflawni cyfraddau plannu coed blynyddol o 4,500 hectar y flwyddyn o leiaf yng Nghymru erbyn 2030, gan godi i 7,500 y flwyddyn erbyn 2035. BLAENORIAETH Y PWYLLGOR | H1 2024 | DERBYN Rydym yn adolygu'r broses o ymgeisio am grant ac yn cynllunio prosesau dilysu i wneud ein systemau'n gyflymach ac yn fwy effeithiol. Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd o ymgysylltu â thirfeddianwyr i'w hannog i greu coetiroedd. |
| R2023-122 | Mae angen cadarnhau cynigion i ddenu buddsoddiad sector preifat i greu coetiroedd cyn gynted ag sy'n ymarferol. | Ch3 2023 | DERBYN Mae'r Gweithgor Cyllid Coetiroedd wedi cyhoeddi ei ganfyddiadau. ⁹ Mae cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion. |
| MATER | Cynyddu'r uchelgais i adfer mawndiroedd er mwyn cyd-fynd â'r llwybr a osodwyd yng nghyngor y Pwyllgor ar y Chweched Gyllideb Garbon, neu ragori arno. | Amherthnasol | CYTUNO Mae Tabl 2.1 adroddiad cynnydd y Pwyllgor yn cydnabod bod ein targed blynyddol i adfer mawndiroedd (fel y'i sefydlwyd o dan yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth) yn rhagori ar y trywydd a nodir yng nghyngor y Pwyllgor. |

⁹ [Gweithgor Cyllid Coetiroedd: argymhellion ar gyfer creu coetiroedd](#)

| | | | |
|-------|--|--------------|---|
| MATER | Parhau i ystyried a gweithredu argymhellion y Panel Archwiliad Dwfn i Goed a Phren, lle nad yw [Llywodraeth Cymru] wedi gwneud hynny eisoes. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi canllawiau hawdd eu defnyddio i ffermwyr ar blannu coed, a sicrhau bod gan unrhyw wasanaeth cynghori yn y dyfodol rôl amlwg i gyngor coetir i gefnogi busnesau fferm cynaliadwy a chynhyrchiol. | Amherthnasol | CYTUNO Roedd yr Archwiliad Dwfn wedi nodi newidiadau i gael gwared ar y rhwystrau sy'n atal creu coetiroedd. ¹⁰ Mae'r argymhellion hyn nawr yn cael eu rhoi ar waith a dylent ysgogi cynnydd yn y coetiroedd sy'n cael eu creu yn y dyfodol. Bydd yn cymryd amser i'r newidiadau a nodwyd yn yr Archwiliad Dwfn gael effaith. Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer bron pob un o'r coetiroedd a blannwyd y llynedd wedi dechrau cyn cynnal yr Archwiliad Dwfn. Mae cynnydd wedi cael ei wneud ar gamau gweithredu penodol fel recriwtio'r tîm o swyddogion cyswllt coetiroedd, adolygu gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru a dull cyfathrebu ar y cyd ar gyfer partneriaethau. |
| MATER | Gallai targed ar gyfer y pren a ddefnyddir mewn adeiladu mewn adeiladau yng Nghymru anfon neges glir i'r diwydiant ar y cynnydd disgwylidig mewn cyfaint y gallai fod ei angen arnynt i wasanaethu. | Amherthnasol | CYTUNO'N RHANNOL Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy brosiect Cartrefi o Bren Lleol 2 a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n edrych ar hyd y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddeall faint o bren sydd ei angen i adeiladu, gan ganolbwyntio ar ddatblygu dyluniadau tai safonol ar gyfer tai cymdeithasol. Bydd yr wybodaeth hon yn llywio'r disgwyliadau am y galw yn y dyfodol. |
| MATER | Adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o raglenni fel Cartrefi o Bren Lleol i ystyried sut y gellir defnyddio polisiâu a mentrau i annog mwy o bren a dyfwyd yng Nghymru i gael ei ddefnyddio mewn adeiladu ac i annog defnyddio | Amherthnasol | CYTUNO Mae Woodknowledge Wales yn darparu rhaglenni gwaith o dan y prosiect, ac mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys: Tynnu Nwyon Tŷ Gwydr; |

¹⁰ [Tasglu Coed a Phren: argymhellion](#)

| | | | |
|--|--|--|--|
| | pren wrth adeiladu adeiladau yng Nghymru, yn enwedig tai cymdeithasol. | | Galluogi Cyflenwad; Ysgogi yn y Farchnad; Addysg a Hyfforddiant; Coedwigo a Datgarboneiddio. Bydd y prosiect yn llywio'r Strategaeth Ddiwydiannol Pren ac yn cefnogi polisiau ar draws datgarboneiddio, effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol, yr economi sylfaenol, tai, gweithgynhyrchu a choedwigaeth. |
|--|--|--|--|

Gwastraff

| Cyfeirnod y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------|---|---------|--|
| R2022-327 | Gosod targedau ailgylchu uchelgeisiol ar gyfer 2030 a thu hwnt, gan wella ar y targed o 70% ar gyfer 2025. BLAENORIAETH Y PWYLLGOR | H1 2024 | DERBYN Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol i ddatblygu'r llwybr ar gyfer targedau ailgylchu y tu hwnt i'r targed sylfaenol statudol o 70% a ddaw i rym yn 2024-25. Y cam cyntaf oedd comisiynu astudiaeth newydd o gyfansoddiad gwastraff trefol gweddilliol. Cafodd y canlyniadau eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023. ¹¹ |
| R2022-328 | Pennu a gweithredu polisiau ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni targedau lleihau gwastraff ac ailgylchu, fel rhan o gyflawni'r Strategaeth Mwy nag Ailgylchu yn ehangach. Yn benodol, mae angen mwy o ffocws ar dynnu plastigion a thecstilau o wastraff | 2023 | DERBYN Rydym yn gwybod bod rhagor i'w wneud i gyrraedd ein targed o ailgylchu 70% erbyn 2025. Mae'r rheoliadau ailgylchu yn y gweithle wedi cael eu cyflwyno yn y Senedd, gyda'r bwriad i ymestyn |

¹¹ [Cyfansoddiad gwastraff awdurdodau lleol cenedlaethol yng Nghymru](#), WRAP (2023)

| | | | |
|-----------|---|---------|---|
| | <p>gweddilliol yn ogystal â mwy o ffocws ar atal gwastraff a'r economi gylchol.</p> | | <p>y gwaith o gasglu deunyddiau i'w hailgylchu ar wahân i'r gweithle.</p> <p>Rydym yn buddsoddi mewn adnoddau ac ymgyrchoedd i helpu'r cyhoedd i fabwysiadu ffyrdd o leihau eu gwastraff bwyd, gan ddarparu cyllid ar yr un pryd i FareShare Cymru i ehangu eu darpariaeth drwy ailddosbarthu bwyd a fyddai'n cael ei wastraffu fel arall.</p> <p>Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith i wella effeithlonrwydd adnoddau a sicrhau bod deunyddiau'n cael eu defnyddio cyhyd â phosibl fel rhan o'r trawsnewid sydd ei angen i economi gylchol drwy ddatblygu ein rhaglen aildefnyddio, atgyweirio a gweithgynhyrchu ar y cyd â phartneriaid; gweithio gydag WRAP ar ddatblygu canllawiau caffael cynaliadwy yn y sector cyhoeddus a darparu cymorth yn uniongyrchol i sefydliadau'r sector cyhoeddus i gaffael yn fwy cynaliadwy.</p> |
| R2023-004 | <p>Nodi polisiau neu gymorth i gasglu allyriadau methan o safleoedd tirlenwi, yn ogystal â gwella monitro allyriadau.</p> <p>BLAENORIAETH Y PWYLLGOR</p> | H1 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Rydym wedi ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni'r Rhaglen Lleihau Allyriadau Safleoedd Tirlenwi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cyfres o archwiliadau nwyon tirlenwi manwl gyda'r nod o gynyddu cyfraddau casglu ac ocsideiddio / defnyddio nwyon tirlenwi mewn safleoedd tirlenwi gweithredol a safleoedd tirlenwi sydd wedi cau'n ddiweddar.</p> |

| | | | |
|-----------|--|--------------|---|
| | | | Mae'r rhaglen yn cynnwys gwaith i wella lefel y ddealltwriaeth o nwyon tirlenwi sy'n dod o bob safle perthnasol, gyda'r nod o sicrhau bod allbynnau'r model Nwyon Tirlenwi cenedlaethol yn cyflwyno darlun mwy cywir. |
| R2023-005 | Nodi sut y bydd llwybr Cymru ar gyfer lleihau allyriadau yn y sector gwastraff yn cael ei gyflawni – gan gynnwys polisïau, anghenion a darpariaeth cyllid/buddsoddiad, ac unrhyw ddibyniaethau neu oblygiadau i wledydd eraill y DU. BLAENORIAETH Y PWYLLGOR | H1 2024 | DERBYN Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn y maes hwn gyda chyllid yn cael ei ddefnyddio i ddatgarboneiddio'r fflydoedd gwastraff ac ailgylchu. Mae hyn yn dod yn ystyriaeth bwysig wrth inni weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu rhaglenni newid strategol. Fel llawer o feysydd, bydd llawer o elfennau trawsbynciol i hyn nad ydynt yn unigryw i'r sector gwastraff, gan gynnwys darparu ynni, caffael, a llif deunyddiau dros y ffin â Lloegr. |
| MATER | Parhau i ymgysylltu'n agos ag awdurdodau lleol a busnesau ynghylch y diwygiadau EPR a'r DRS sy'n dod i mewn, i fynd i'r afael â phryderon am y cynlluniau. | Amherthnasol | CYTUNO Mae gweithredu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer diwygio pecynnau ar hyd a lled y DU wedi cael ei ohirio am 12 mis. Bydd hyn yn caniatáu amser ychwanegol i gael trefniadau gweithredol y cynllun yn iawn drwy ymgysylltu ymhellach â'r sector pecynnau ac awdurdodau lleol. Er enghraifft, fel rhan o'r rhaglen bedair gwlad, rydym wedi lansio ymgynghoriad ar yr Offeryn Statudol sy'n sail i Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, i brofi ei eglurder a'i ymarferoldeb gweithredol gyda phob rhan o'r gadwyn gyflenwi casglu a pheycynnu. Mae hyn wedi cynnwys rhagor |

| | | |
|-------|--|---|
| | | <p>o weminarau ar yr Offeryn Statudol ei hun, ochr yn ochr â'r Fforymau Parodwydd Busnesau a Fforymau Awdurdodau Lleol.</p> <p>Cafodd rheoliadau newydd eu cyflwyno ar draws y DU yn ystod hanner cyntaf 2023 sy'n golygu ei bod yn rhaid i gynhyrchwyr deunyddiau pacio gyflwyno data am lefel a mathau'r pecynnau maent yn eu rhoi ar y farchnad, ochr yn ochr ag ymarfer casglu data am gostau a gynhaliwyd yn ystod haf 2023 gydag awdurdodau lleol. Bydd y ddwy set ddata hyn yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r ffioedd mae angen i gynhyrchwyr eu talu a'r taliadau a gaiff awdurdodau lleol yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun a fydd nawr yn digwydd yn 2025/26.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cynllun dychwelyd ernes. Fodd bynnag, bu oedi oherwydd yr angen i weithio drwy oblygiadau penderfyniad Llywodraeth y DU ar gais Llywodraeth yr Alban am eithrio eu DRS o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU. Roedd yr amodau a bennwyd i Lywodraeth y DU ganiatáu'r eithriad hwn ar gyfer yr Alban wedi arwain at ohirio'r dyddiad a fwriadwyd i roi'r cynllun ar waith yn yr Alban.</p> |
| MATER | Ychydig iawn o fanylion sydd wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'n bwriadu galluogi ac annog cwmnïau dŵr a defnyddwyr | <p>CYTUNO'N RHANNOL</p> <p>Roedd y Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol a gyhoeddwyd i Ofwat ym mis Gorffennaf 2022 yn amlinellu ein bod yn disgwyl i gwmnïau</p> |

| | | | |
|--|---|--|--|
| | diwydiannol i leihau allyriadau o ddŵr gwastraff. Mae hwn yn fwllch polisi. | | dŵr ddatblygu cynlluniau clir a chadarn ar gyfer sut maent yn bwriadu mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd a chyflawni ymrwymïadau sero net. Rydym yn cydnabod y rôl y mae angen i gwmnïau dŵr ei chwarae o ran lleihau allyriadau o ddŵr gwastraff a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sector, a rheoleiddwyr, i wneud cynnydd cadarnhaol. |
|--|---|--|--|

Trafnidiaeth

| Cyfeirnod Y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|-------------------------------------|---|---------------|--|
| R2023-008 | Pennu llwybr datgarboneiddio awyrennau hyd at 2050 yn unol â Chyllidebau Carbon Cymru a tharged Sero Net. | H1 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Mae polisi hedfan yn fater a gedwir yn ôl. Mae natur teithiau awyr yn y DU yn golygu bod llawer o deithwyr o Gymru yn defnyddio meysydd awyr yn Lloegr, neu mae'r opsiwn ar gael iddynt wneud hynny, sydd â goblygiadau o ran effeithiolrwydd posibl polisiâu Cymru.</p> <p>Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd ag Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar bob agwedd ar bolisi hedfan. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill mewn perthynas â'r Cynllun Gwrthbwyso a Lleihau Carbon ar gyfer Hedfan Rhyngwladol (CORSA) ac Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS).</p> |

| | | | |
|-----------|--|---------|--|
| R2023-009 | Gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn barod ar gyfer derbyniad SAF o 2025 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys amgylchedd rheoleiddio sy'n galluogi, seilwaith a gweithwyr sydd wedi'u huwchsgilio'n lleol. | Parhaus | <p>DERBYN</p> <p>Rydym yn gweithio gyda Maes Awyr Caerdydd ar ddefnyddio tanwydd hedfan cynaliadwy (SAF) yn y dyfodol, ac rydym yn falch bod Maes Awyr Caerdydd wedi ymrwymo i'w ddefnyddio a'i gynnig i gwmnïau awyrennau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Nid oes llawer o danwydd hedfan cynaliadwy ar gael ar hyn o bryd ac mae'n cynrychioli llai nag 1% o'r galw byd-eang am danwydd jet.¹²</p> <p>Roeddem yn croesawu'r newyddion diweddar bod LanzaTech yn bwriadu adeiladu cyfleusterau ailgylchu carbon arloesol ym Mhort Talbot i droi allyriadau diwydiannol yn danwydd hedfan cynaliadwy.¹³ Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan £25 miliwn gan Gronfa Tanwyddau Blaengar Llywodraeth y DU. Rydym yn gweld tanwydd hedfan cynaliadwy fel ateb i leihau carbon ar unwaith, wrth i'r diwydiant edrych ar ddatblygu awyrennau allyriadau sero, fel awyrennau sy'n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan.</p> <p>Mae pryder ar draws y diwydiant yn y DU am gost a fforddiadwyedd tanwydd hedfan cynaliadwy. Ar hyn o bryd nid oes cymhelliant i gwmnïau awyrennau newid i danwydd hedfan cynaliadwy gan ei fod ar hyn o bryd yn ddrytach na</p> |
|-----------|--|---------|--|

¹² [Diweddariad ar tanwydd hedfan cynaliadwy](#), International Air Transport Association

¹³ [Cyhoeddi cynlluniau LanzaTech i gynhyrchu Tanwydd Hedfan Cynaliadwy am y tro cyntaf yng Nghymru ym Mhort Talbot](#) (17 Ebrill 2023)

| | | | |
|-----------|--|----------|---|
| | | | thanwyddau ffosil. Felly, nid oes digon o alw i feysydd awyr rhanbarthol fuddsoddi mewn darparu tanwydd hedfan cynaliadwy, yn enwedig o ystyried nad oes llawer ohono ar gael. |
| R2023-011 | Cefnogi Llywodraeth y DU i wthio am gynnwys targed Sero Net 2050 yn niweddariad 2023 y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol o'i Strategaeth Nwyon Tŷ Gwydr. | H1 2023 | DERBYN Byddwn yn cefnogi Llywodraeth y DU i bwysu am i'r Sefydliad Morwrol Rhyngwladol gynnwys targed sero net 2050 yn ei Strategaeth Nwyon Tŷ Gwydr. |
| R2023-013 | Datblygu cynllun ar gyfer defnyddio pŵer y lan a seilwaith ailwefru trydan ym mhob un o brif borthladdoedd Cymru. Dylai hyn gynnwys nodi rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cyflawni a darparu cymorth a chymhellion i ysgogi buddsoddiad. Gellid cynnwys hyn yng Nghynllun Porthladdoedd a Morwrol Cenedlaethol Cymru. | Ch3 2023 | DERBYN Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi prosiect Glannau'r DU Llywodraeth y DU ac mae'n annog ein porthladdoedd i ymgeisio am gyllid drwy'r rhaglen hon, fel y Cystadlaethau Arddangos Morol Glân. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr ymarfer o ganfod rolau a chyfrifoldebau i gyflawni ac i ddarparu cymorth a chymhellion i ennyn buddsoddiad mewn seilwaith pŵer ar y glannau ac ailwefru trydan. Ar ben hynny, byddwn yn ystyried effaith y Bil Seilwaith (Cymru) sy'n cael ei gyflwyno yn y Senedd ar bŵer y glannau a seilwaith gwefru trydan. Gan y bydd y Bil hwn yn sefydlu proses newydd i roi cydsyniad i brosiectau seilwaith mawr, gan gynnwys prosiectau ynni, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth mawr. Bydd y Bil hwn yn symleiddio ac yn uno'r broses gwneud penderfyniadau, gan helpu i gefnogi buddsoddi mewn porthladdoedd a'u datblygu. |

| | | | |
|-----------|--|----------|---|
| R2023-014 | Nodi yng Nghynllun Cenedlaethol Porthladdoedd a Morwrol Cymru lwybr datgarboneiddio morgludiant yn unol â tharged Cyllidebau Carbon a Sero Net Cymru a sut y bydd Porthladdoedd yn galluogi defnyddio tanwydd morgludiant carbon isel a thrydaneiddio. | Ch3 2023 | DERBYN YN RHANNOL Byddwn yn ystyried llwybr datgarboneiddio morgludiant yn unol â chyllidebau carbon a tharged sero net Cymru a sut y bydd porthladdoedd yn galluogi defnyddio tanwydd morgludiant carbon isel a thrydaneiddio. |
| R2023-015 | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Awdurdod Hedfanaeth Sifil i ddechrau casglu data tarddiad teithwyr i olrhain teithwyr o Gymru sy'n teithio i feysydd awyr Lloegr i hedfan. | Ch3 2023 | DERBYN Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil eisoes yn cynnal ymchwil flynyddol i weithgarwch hedfan teithwyr ar draws y DU, sy'n cynnwys gwybodaeth am lle mae teithwyr yn nifer o feysydd awyr yn y DU yn dechrau ac yn gorffen eu taith. Nid oedd yr Arolwg Teithwyr diweddaraf yn 2022 yn cynnwys meysydd awyr Caerdydd na Bryste, gan adael bwlch sylweddol yn y ddealltwriaeth o batrymau teithwyr Cymru ers yr arolwg blaenorol yn 2019. Byddwn ni a'r Awdurdod Hedfan Sifil yn edrych ar bosibilrwydd cofnodi'r data perthnasol yn fwy rheolaidd. ¹⁴ |
| R2023-017 | Gweithio gyda gweinyddiaethau datganoledig eraill ac Adran Drafnidiaeth y DU i sicrhau bod ystadegau trwyddedu cerbydau cyhoeddiedig yn rhoi darlun cywir o'r nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan fesul gwlad. | H1 2024 | DERBYN Mae'r materion sy'n ymwneud â dibynadwyedd data sy'n ymwneud â'r niferoedd sy'n defnyddio cerbydau trydan yng Nghymru wedi cael eu codi gydag Adran Drafnidiaeth y DU, yn enwedig yng nghyd-destun trafodaethau ar y mandad cerbydau di-allyriadau. Mae ymrwymadau wedi cael eu gwneud i geisio gwella cywirdeb y data gofodol a byddwn yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a |

¹⁴ [Adroddiadau arolwg | Yr Awdurdod Hedfan Sifil](#)

| | | | |
|-----------|--|---------|--|
| | | | llywodraethau eraill i sicrhau bod y mater yn cael ei ddatrys. |
| R2023-018 | <p>Monitro'r nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan yng Nghymru ac asesu a oes cyfleoedd ar gyfer polisïau a chymhellion pellach i hybu mabwysiadu yn gyflymach na thrwy fandad ZEV yn unig. Dylai hyn ystyried cyfleoedd i wneud y mwyaf o arbedion allyriadau a sicrhau cyd-fuddiannau i bobl Cymru.</p> <p>BLAENORIAETH Y PWYLLGOR</p> | Parhaus | <p>DERBYN</p> <p>Byddwn yn monitro'r nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan ac yn ystyried cyfleoedd i wneud y mwyaf o arbedion a sicrhau cyd-fuddion.</p> |
| R2023-019 | <p>Cynyddu'r defnydd o fannau gwefru i gyflawni'r uchelgais i ddarparu un pwynt gwefru cyhoeddus ar gyfer pob 7-11 cerbyd trydan erbyn 2025.</p> | 2025 | <p>DERBYN YN RHANNOL</p> <p>Mae nifer y pwyntiau gwefru cyhoeddus sydd wedi'u gosod fesul 100,000 o drigolion wedi cynyddu o 27 ym mis Ebrill 2021 i 61 ym mis Gorffennaf 2023. Nifer cyfartaledd y DU yw 66 ond mae llawer o ranbarthau Lloegr y tu allan i Lundain yn is na chyfartaledd Cymru. Mae hynny'n cynrychioli twf o 125% ers cyhoeddi Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cymru.</p> <p>Mae Cymru wedi gweld twf o 58% yng nghyfanswm y ddarpariaeth gwefru a chynnydd o 78% mewn gwefru cyflym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (mae twf y DU wedi bod yn 38% a 42% yn y drefn honno).</p> |
| R2023-020 | <p>Datblygu a chyhoeddi cynllun cyflawni llawn ar sut i wireddu'r uchelgais o leihau'r galw fesul person am geir 10% erbyn 2030. Dylai hyn gynnwys ystyried sut y bydd mesurau sy'n cyfyngu ar y defnydd o geir yn rhyngweithio â'r rhai sy'n galluogi moddau mwy</p> | H1 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Ar hyn o bryd rydym yn datblygu manylion y gostyngiad o 10% mewn km car y pen erbyn 2030. Rydym yn rhagweld cwblhau'r gwaith hwn yng Ngwanwyn 2024.</p> |

| | | | |
|-----------|---|------|---|
| | cynaliadwy. BLAENORIAETH Y PWYLLGOR | | |
| R2023-021 | Cytuno a chyhoeddi setliadau ariannu ar gyfer teithio llesol y tu hwnt i 2024/25. Yn ddelfrydol, dylai'r rhain roi sicrwydd ynghylch argaeledd cyllid am nifer o flynyddoedd. | 2023 | DERBYN YN RHANNOL Mae'r Gronfa Teithio Llesol wedi tyfu bum gwaith ers ei chyflwyno. Mae gan Lywodraeth Cymru allu cyfyngedig i ddarparu sicrwydd cyllid tymor hir oherwydd ei chyfyngiadau cyllidebol ei hun. Er nad ydym yn gallu rhoi sicrwydd bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol, rydym wedi sefydlu'r mecanwaith dyrannu craidd i ddarparu lefel sylfaenol o gyllid bob blwyddyn i ddatblygu llif o brosiectau ac i wneud gwelliannau bach. |
| R2023-022 | Datblygu system fwy cydgysylltiedig, syml a fforddiadwy o docynnau trafndiaeth gyhoeddus ledled Cymru. | 2023 | DERBYN YN RHANNOL Rydym yn nodi cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd yn ein papur gwyn: Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn ¹⁵ a fyddai'n diwygio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau yng Nghymru a dod â nhw'n ôl dan reolaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn caniatáu i ni weithio gyda Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol i sefydlu un system docynnau ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru, gyda'r bwriad o fod yn syml, yn deg ac yn fwy fforddiadwy ar draws y rhwydwaith cyfan. Bydd Trafnidiaeth Cymru wedyn yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o integreiddio'r system docynnau hon cyn belled ag y gallwn gyda gwasanaethau rheilffyrdd. |

¹⁵ [Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru](#)

| | | | |
|-----------|--|--------------|---|
| | | | O ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus hyd yn oed yn fwy dibynnol ar gyllid cyhoeddus ers y pandemig, a'r cyfyngiadau ar gyllideb Llywodraeth Cymru, bydd penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth y DU yn effeithio ar fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus. |
| R2023-023 | Cyhoeddi'r Cynllun Cludo Nwyddau a Logisteg Cenedlaethol, gan gynnwys polisiâu ar fesurau ochr-alw megis cydgrynhoi trefol a newid moddol. | 2024 | DERBYN YN RHANNOL Bydd ein polisiâu ym maes nwyddau a logisteg yn ystyried polisiâu yn y dyfodol am gyfuno trefol a newid moddol. |
| MATER | Dylai Llywodraeth Cymru fod yn rhan o gamau nesaf Llywodraeth y DU ar gerbydau trwm – gan gynnwys ymgynghori ar reoliadau gwerthu ac ystyried pa seilwaith galluogi a chymorth y gallai fod eu hangen. | Amherthnasol | CYTUNO Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn rhan o unrhyw gynlluniau gan Lywodraeth y DU i sbarduno arbedion carbon o gerbydau trwm. Ar hyn o bryd mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU drwy grwpiau amrywiol. |
| MATER | Mae angen cynllun cynhwysfawr ar gyfer datgarboneiddio rheilffyrdd Prydain, gan gynnwys sefydlu rhaglen dreigl o drydaneiddio traciau. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu hyn. | Amherthnasol | CYTUNO Rydym wedi buddsoddi mwy na £1bn i drydaneiddio llinellau craidd y Cymoedd ac ar hyn o bryd rydym yn cyflwyno fflyd newydd sbon sydd â gweithrediadau glanach o lawer na cherbydau rheilffordd blaenorol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith rheilffyrdd wedi'i gadw'n ôl, ac felly'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU o ran seilwaith a'r gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan weithredwyr eraill. Drwy Fwrdd Rheilffyrdd Cymru, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer |

| | | | |
|--|--|--|--|
| | | | buddsoddi yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys ystyried y manteision posibl ar gyfer targedau newid hinsawdd. Hwn fyddai'r fforwm priodol ar gyfer ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch rhaglen dreigl o drydaneiddio ar hyd a lled y DU. Ar ben hynny, mae Trafnidiaeth Cymru yn datblygu ei gynlluniau datgarboneiddio ei hun a fydd yn cynnwys opsiynau ar gyfer cerbydau rheilffyrdd yn y dyfodol. |
|--|--|--|--|

Adeiladau

| Cyfeirnod y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------|---|--------|--|
| R2022-111 | Gan ddefnyddio argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru, cyhoeddi cynlluniau ar gyfer iteriadau'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn y dyfodol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a datgarboneiddio cartrefi, gan fynd i'r afael â dibyniaeth y cynllun ar wresogi tanwydd ffosil a'i gyflwyno'n araf. | 2023 | DERBYN Fe wnaethom gyhoeddi datganiad polisi ar y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd ym mis Mehefin. Mae'n nodi sut bydd y cynllun yn symud oddi wrth wresogi gan ddefnyddio tanwydd ffosil. ¹⁶ |
| R2023-039 | Datblygu cynllun manwl ar gyfer datgarboneiddio adeiladau a chyrraedd targedau Sero Net, gan ymgorffori data o Gynlluniau Ynni Ardal Leol. Dylai'r cynllun gynnwys amcangyfrifon o ofynion buddsoddi a thargedau blynyddol ar gyfer defnyddio mesurau gwresogi carbon isel ac effeithlonrwydd ynni. Dylai nodi meysydd polisi sydd o dan reolaeth Llywodraeth Cymru | 2024 | DERBYN YN RHANNOL Rydym yn gwybod y bydd angen modelau ariannu arloesol i dalu am ddatgarboneiddio, ac ni fydd Llywodraeth Cymru ar ei phen ei hun yn gallu talu am gostau hynny. Rydym yn gweithio gyda'n Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio ar ddatblygu trywydd ar gyfer datgarboneiddio preswyl a fyddai'n cyd- |

¹⁶ [Rhaglen Cartrefi Clyd Newydd: datganiad polisi](#)

| | | | |
|-----------|---|---------|---|
| | a'r rhai y mae angen eu cydgysylltu â Llywodraeth y DU. BLAENORIAETH Y PWYLLGOR | | fynd â chynlluniau gweithredu'r Strategaeth Gwres. Mae newidiadau polisi diweddar ar lefel Llywodraeth y DU yn tynnu sylw at effaith y meysydd polisi hynny sydd o dan reolaeth Llywodraeth y DU. |
| R2023-040 | Aseu'n llawn lefel y buddsoddiad sydd ei angen i ddatgarboneiddio tai cymdeithasol a gwneud cynlluniau hirdymor ar gyfer darparu'r cyllid sydd ei angen. Gwerthuso effeithiolrwydd cost ôl-osod tai cymdeithasol i gyrraedd gradd 'A' y Dystysgrif Perfformiad Ynni, ac adolygu'r targed arfaethedig. BLAENORIAETH Y PWYLLGOR | H1 2024 | DERBYN YN RHANNOL Mae ein cynlluniau ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 yn cynnwys cyfnod o 3 blynedd pan fydd landlordiaid cymdeithasol yn cynnal Llwybrau Ynni Targed cynhwysfawr ar gyfer eu stoc ac yn cwblhau Aseiad Stoc Gyfan, gan gynnwys llinell amser a chostau amlinellol. Bydd gofynion y safon yn cael eu pwysu a'u mesur ar ôl cwblhau'r cyfnod hwnnw. Rydym yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i ystyried y gofynion cyllido i ddatgarboneiddio'r stoc tai cymdeithasol ac rydym yn dal wedi ymrwmo i weithio gyda landlordiaid i edrych ar lwybrau ariannu yn y dyfodol. |
| R2023-042 | Cynnal adolygiad brys o bolisiau cynllunio (gan gynnwys manylion hawliau datblygu a ganiateir) a allai gyfyngu ar osodiadau gwresogi carbon isel a mesurau effeithlonrwydd ynni, a diwygio rheoliadau lle bo'n briodol. | H1 2024 | GWRTHOD Rydym yn adolygu polisiau cynllunio'n gyson ac yn ceisio sicrhau eu bod yn cyflawni ymrwymadau ehangach y llywodraeth. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu adolygu polisiau cynllunio y flwyddyn nesaf yn benodol ar gyfer eu heffaith ar osodiadau gwresogi carbon isel a mesurau effeithlonrwydd ynni. |
| R2023-043 | Diweddarau rheoliadau adeiladu i sicrhau bod pob adeilad newydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn ymgorffori safonau effeithlonrwydd ynni hynod uchel a gwresogi carbon isel. Sicrhau y bydd | 2024 | DERBYN YN RHANNOL Yn 2022, gwnaethom newid sylweddol ac angenrheidiol o ran perfformiad ynni a charbon mewn adeiladau newydd. Mae'r gostyngiad yn |

| | | | |
|-----------|---|------|---|
| | <p>y safonau newydd hyn yn eu lle erbyn 2025. Sicrhau bod y safonau'n golygu na fydd unrhyw adeiladau newydd yn cael eu cysylltu â'r grid nwy o 2025. Diffinio trefniadau trosiannol clir a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw adeiladau nad ydynt wedi dechrau'n ystyrlon ar y safle o fewn blwyddyn i'r dyddiad gweithredu fodloni'r safonau newydd.</p> | | <p>gam tuag at y newidiadau nesaf i effeithlonrwydd ynni yn y Rheoliadau Adeiladu yn 2025. Ein gweledigaeth ar gyfer safon sylfaenol 2025 yw darparu adeiladau hynod effeithlon sy'n defnyddio ffynonellau gwres carbon isel ar gyfer gwresogi a dŵr poeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r amserlen hon fod yn heriol ar gyfer rhai mathau o adeiladau annomestig sydd â gwahanol nodweddion o ran eu galw am wres a dŵr poeth, y bydd angen eu hystyried yn ofalus fel rhan o adolygiad 2025.</p> <p>Roedd newidiadau 2022 hefyd yn cyflwyno gofynion newydd i liniaru'r risg o orboethi mewn adeiladau preswyl newydd. Fel rhan o newidiadau 2022, cafodd y trefniadau pontio eu cryfhau sy'n golygu ei bod yn rhaid i unrhyw adeiladau unigol nad ydynt wedi dechrau ar y safle o fewn blwyddyn i'r dyddiad gweithredu fodloni'r safonau newydd. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu eto ar gyfer newidiadau 2025 i sicrhau bod yr amcan polisi yn cael ei gyflawni.</p> |
| R2023-044 | <p>Dylunio a gweithredu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau sydd eu hangen i ddatgarboneiddio adeiladau ac yn rhoi cyngor i ddefnyddwyr ar ôl-ffitio cartrefi.</p> | 2024 | <p>DERBYN YN RHANNOL</p> <p>Rydym wedi cyhoeddi Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer newid hinsawdd sy'n cynnwys 'Ynni Cartref' fel un o'r pedair thema Dewis Gwyrdd. Nid ydym yn bwriadu datblygu strategaeth ar gyfer pob thema Dewis Gwyrdd ond mae ein Strategaeth Gwres i Gymru, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Awst</p> |

| | | | |
|-----------|---|---------|--|
| | | | 2023, yn ein hymrwymo i ymgysylltu ag aelwydydd i feithrin gwell dealltwriaeth o wres carbon isel a chyfleu'r cymorth sydd ar gael ar gyfer y newid i wres. Mae ein gwefan newydd Gweithredu ar Newid Hinsawdd eisoes yn cynnwys gwybodaeth am ddatgarboneiddio cartrefi. |
| R2023-045 | Mesur y sgiliau a'r gofynion gweithlu ar gyfer datgarboneiddio adeiladau, a datblygu polisïau i gefnogi bodloni'r gofynion hyn. | H1 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Ym mis Hydref, fe wnaethom lansio ymgynghoriad sgiliau sector sero net¹⁷ sy'n ceisio adeiladu ar yr wybodaeth a'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r cynllun gweithredu sgiliau sero net.¹⁸ Mae'r ymgynghoriad yn nodi ein dealltwriaeth bresennol o sefyllfa sgiliau pob sector allyriadau a'i nod yw nodi pa sgiliau sydd eu hangen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach.</p> <p>Mae ymgysylltiad cryf â rhanddeiliaid yn parhau i helpu i gefnogi a chael gwybodaeth am anghenion y sector sy'n dod i'r amlwg. Mae gweithgor sero net ar gyfer y pedair gwlad wedi cael ei sefydlu ar lefel swyddogol i hyrwyddo dull gweithredu cydgysylltiedig ac i rannu arferion da a'r gwersi a ddysgwyd o bob cwr o'r gwledydd.</p> |
| R2023-112 | Asesu'n llawn lefel y buddsoddiad sydd ei angen i ddatgarboneiddio cartrefi tlawd o ran tanwydd a gwneud cynlluniau hirdymor ar gyfer darparu'r cyllid sydd ei angen. BLAENORIAETH Y PWYLLGOR | H1 2024 | <p>DERBYN YN RHANNOL</p> <p>Rydym yn cydnabod bod angen hyrwyddo pontio teg drwy gefnogi aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd i ddatgarboneiddio eu cartrefi, yn bennaf drwy fabwysiadu mesurau effeithlonrwydd ynni a</p> |

¹⁷ [Ymgynghoriad sgiliau sector sero net](#)

¹⁸ [Cynllun gweithredu sgiliau sero net](#)

| | | | |
|-------|---|--------------|---|
| | | | <p>systemau gwresogi carbon isel. Mae asesu'r camau ymarferol i'w cymryd a'u costau cysylltiedig yn bwysig iawn os ydym am adeiladu ar lwyddiant ein Rhaglen Cartrefi Clyd. Fodd bynnag, mae nifer o rwystrau, gan gynnwys argaeledd data perthnasol a chadarn a setliad cyllideb heriol. Ein cam cyntaf yw datblygu methodoleg i asesu'r angen, a'n nod yw dechrau'r flwyddyn ariannol hon, a llenwi unrhyw fylchau data.</p> |
| MATER | <p>Gallai ddatblygu cynlluniau mwy uchelgeisiol ar gyfer galluogi darparu gwresogi carbon isel ac effeithlonrwydd ynni yn y meysydd hynny lle mae ganddi bwerau, megis sgiliau a buddsoddiad.</p> | Amherthnasol | <p>CYTUNO'N RHANNOL Rydym yn datblygu trywydd ar gyfer datgarboneiddio preswyl a fydd yn cyd-fynd â'n Strategaeth Gwres a'r cynllun gweithredu ar gyfer elfennau preswyl y strategaeth wresogi. Mae ein cynlluniau mewn perthynas â sgiliau yn ein hymateb i R2023-045.</p> |
| MATER | <p>Gellid gwella safonau ynni drwy ddefnyddio targedau absoliwt ar gyfer defnydd ynni yn hytrach na chymharu ag adeiladau tybiannol.</p> | | <p>ANGHYTUNO Rydym wedi ystyried defnyddio nifer o safonau ynni, pob un â'u manteision a'u hanfanteision. Fodd bynnag, mae'r sector adeiladu cyfan yn defnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol sydd wedi hen ennill ei phlwyf fel Safon Ynni ar gyfer adeiladau. Mae mabwysiadu dull gwahanol i weddill y DU yn debygol o greu ansicrwydd a baich ychwanegol i sector adeiladu Cymru, a allai ar hyn o bryd fod yn niweidiol i gynnydd. Rydym yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth y DU i wella fersiwn 11 y Weithdrefn Asesu Safonol ar gyfer ei lansio yn 2025, er mwyn</p> |

| | | | |
|-------|---|--------------|---|
| | | | adlewyrchu ymrwymiadau sero net Cymru yn well a'r defnydd go iawn o ynni mewn adeiladau. |
| MATER | Mae angen gwelliannau i orfodi safonau adeiladau, gan gynnwys ehangu'r defnydd o brofion perfformiad, i sicrhau bod perfformiad gwirioneddol adeiladau newydd yn cyd-fynd â disgwyliadau ac i ddwyn contractwyr i gyfrif am ansawdd a pherfformiad. | Amherthnasol | <p>CYTUNO'N RHANNOL</p> <p>Roedd newidiadau Rhan L 2022 yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer anheddau newydd (gan gynnwys tystiolaeth ffotograffig, adroddiad cydymffurfio newydd a chanllaw ynni cartref), gyda'r nod o leihau'r bwlch perfformiad. Mae profion athreiddedd aer hefyd bellach yn ofynnol ar bob annedd newydd. Bydd ystyriaeth bellach i'r bwlch perfformiad yn rhan o adolygiad Rhan L 2025 i weld a oes angen gwneud rhagor o newidiadau i reoliadau adeiladu.</p> <p>Mae'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau yn cyflwyno pwerau estynedig i awdurdodau rheoli adeiladu i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â rheoliadau adeiladu. Fel rhan o'r drefn Porth newydd, mae hysbysiadau cydymffurfio neu stop yn cael eu cyflwyno (2024 yw ein hamcangyfrif ar gyfer cyflwyno ar hyn o bryd) lle mae rheoliadau adeiladu yn cael eu torri neu'n debygol o gael eu torri. Cyn y Ddeddf hon, nid oedd pŵer ar gael i stopio gwaith adeiladu nad oedd yn cydymffurfio rhag parhau neu gael ei gwblhau. Bydd cyhoeddi hysbysiad o'r fath hefyd yn osgoi unrhyw waith diangen pellach sy'n cael ei wneud ar adeilad nad yw'n cydymffurfio drwy sicrhau bod pob cam yn cydymffurfio cyn dechrau ar y cam nesaf.</p> |

Pŵer

| Cyfeirnod y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------------|---|----------|--|
| R2023-024 | Asesu'r potensial ar gyfer cynhyrchu hydrogen ar raddfa fawr a seilwaith ategol yng Nghymru y tu hwnt i 2023/24 a chydgyssylltu â Llywodraeth y DU ar y ffordd orau i Gymru gyfrannu at gynlluniau DU gyfan. | Ch1 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Roedd Adroddiad Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru yn asesu'r senarios ynni ar gyfer Cymru yn y dyfodol er mwyn cyflawni sero net erbyn 2050.¹⁹ Roedd y dadansoddiad hwn yn cynnwys y rôl y gallai hydrogen ei chwarae o ran cynhyrchu trydan, datgarboneiddio diwydiannol a gwres. Rydym yn parhau i geisio gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ganfyddiadau'r adroddiad a'r rôl y gall Cymru ei chwarae o ran cefnogi targedau a chynlluniau sero net y DU.</p> |
| R2023-025 | Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Bio-ynni sy'n egluro'r sefyllfa ar fio-ynni yng Nghymru, gan nodi'r defnydd gorau ohono, mecanweithiau cyflawni allweddol, y cyllid sydd ar gael, gofynion trwyddedu ac amserlenni yn y dyfodol. | 2024 | <p>DERBYN YN RHANNOL</p> <p>Rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol i egluro'r materion a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â bio-ynni. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn golygu nad yw'r gwaith hwn yn debygol o ddechrau yn 2024.</p> |
| R2023-131 | Gweithio'n agos fel rhan o grŵp cyflawni seilwaith a arweinir gan Weinidog, ac ar y cyd â'r Comisiynydd Rhwydweithiau Trydan newydd, i sicrhau bod mentrau galluogi ar gyfer seilwaith ynni yn cael eu datblygu'n gyflym a bod newidiadau polisi angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru, er mwyn cyflawni system bŵer wedi datgarboneiddio a chydnerth erbyn 2035. Dylai trefn cynllunio gofodol Cymru gydbwysu'n | 2023 | <p>DERBYN</p> <p>Mae'r rhaglen genedlaethol o gynllunio ynni ar draws Cymru, sydd i fod i gael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2024, yn darparu sylfaen dystiolaeth gref i sefydlu anghenion y rhwydwaith.</p> <p>Rydym yn cydnabod yr angen i ail-wifro'r wlad i gyflawni nodau sero net ac rydym yn ymrwymo i</p> |

¹⁹ [Gridiau ynni'r dyfodol i Gymru: adroddiadau](#)

| | | | |
|-------|---|--------------|---|
| | <p>ddigonol effeithiau lleol ar gyfalaf naturiol â'r angen am gapasiti rhwydwaith trydan digonol, wedi'i ddarparu mewn modd amserol, i ddarparu ar gyfer ehangu capasiti cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn unol â thargedau Llywodraeth y DU ac uchelgais Llywodraeth Cymru.</p> <p>BLAENORIAETH Y PWYLLGOR</p> | | <p>sefydlu set o egwyddorion i benderfynu a ddylid cefnogi cynigion rhwydwaith. Rydym hefyd wedi cynnig treialu'r Cynllunydd Rhwydwaith Rhanbarthol arfaethedig yng Nghymru, gan ystyried sut gellir cysoni cynllunio gofodol a chynllunio rhwydwaith, a sut gellir cydbwysu ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i ddarparu ar gyfer y seilwaith newydd sydd ei angen i roi mynediad parhaus i bobl at wres, trafndiaeth a gweithgarwch economaidd ochr yn ochr â chyfoeth a gwella cyfalaf naturiol.</p> |
| MATER | <p>Dewisodd Llywodraeth Cymru beidio â chymryd rhan yng nghronfa'r Rhwydwaith Gwres Gwyrdd. Mae hyn o bosibl yn gadael diffyg cymorth ar gyfer buddsoddi mewn cynlluniau rhwydwaith gwres mwy. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhwydweithiau gwres lle nodir bod angen y rhain mewn Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol.</p> | Amherthnasol | <p>CYTUNO</p> <p>Ym mis Awst, fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Gwres ar gyfer ymgynghoriad.²⁰ Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar gymorth a rheoliadau ar gyfer rhwydweithiau gwres.</p> |
| MATER | <p>Gweithio gyda Llywodraeth y DU mewn meysydd a gadwyd yn ôl i gyflawni polisi cryf sy'n gyson â datgarboneiddio'r cyflenwad trydan erbyn 2035 (ee ar safonau ar gyfer adeiladau pwerdai newydd) a bwrw ymlaen â rhaglenni sy'n benodol i Gymru a pholisi datganoledig i gefnogi datgarboneiddio.</p> | Amherthnasol | <p>CYTUNO</p> <p>Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar barodrwydd datgarboneiddio'r sector pŵer yng Nghymru.</p> |

²⁰ [Strategaeth gwres i Gymru](#)

Diwydiant

| Cyfeirnod Y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------------|--|---------|---|
| R2023-026 | Nodi gofynion lleol a chenedlaethol ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol, a chyfleoedd yn sgil hynny, yng Nghynllun Ynni Cenedlaethol Cymru a Chynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol. | 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Bydd cynlluniau ynni ardaloedd lleol yn nodi'r newidiadau sydd eu hangen i'r system ynni leol i ddatgarboneiddio gwres, gwireddu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol a chefnogi'r gwaith o gynllunio rhwydwaith strategol.</p> <p>Bydd ein hymgysylltiad â diwydiant, gan gynnwys drwy Ddiwydiant Sero Net Cymru, yn galluogi dealltwriaeth o'r blaenoriaethau sy'n ofynnol gan ddiwydiant o system ynni carbon isel i alluogi diwydiant i leihau allyriadau o brosesau diwydiannol a gwella cystadleurwydd.</p> |
| R2023-027 | <p>Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatgarboneiddio diwydiannol yng Nghymru, gan ofyn yn ffurfiol am rai mesurau cymorth penodol, gan gynnwys ar gyfer mabwysiadu CCUS a hydrogen yng Nghlwtwr Diwydiannol De Cymru.</p> <p>BLAENORIAETH Y PWYLLGOR</p> | Parhaus | <p>DERBYN</p> <p>Rydym yn cydnabod y bydd pwerau sydd wedi'u cadw'n bennaf gan Lywodraeth y DU yn dylanwadu ar tua 60% o'r newidiadau sydd eu hangen yng Nghymru i gyflawni llwybr at sero net. Ni all y DU gyrraedd ei thargedau sero net heb ddatgarboneiddio diwydiant yng Nghymru, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth y DU i gyflawni'n briodol ar gyfer Cymru. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n codi i ddiwydiant a busnesau Cymru</p> |

| | | | |
|---------------------------|---|--------------|---|
| | | | o fentrau ar lefel y DU i gefnogi prosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio dwfn. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau busnes i gasglu ac i storio carbon sy'n cynnwys ateb ar gyfer cludo CO ₂ heb biblinell cyn 2030, os ydym am fodloni gofynion Cyllideb Garbon 3. Mae sefydlu Diwydiant Sero Net Cymru yn cefnogi'r gwaith o gydlynu prosiectau datgarboneiddio diwydiannol ar hyd a lled Cymru ac yn blaenoriaethu'r cymorth sydd ei angen ar lefel y DU i alluogi pontio teg i sero net ar gyfer diwydiant. |
| (O adroddiad cyngor 2020) | Sicrhau bod cynlluniau datgarboneiddio'n cael eu datblygu ar gyfer cyfleusterau prosesu a phuro nwy sy'n cyd-fynd â Sero Net, gan gynnwys datgarboneiddio dwfn yn ystod y 2030au. | Amherthnasol | DERBYN Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid diwydiannol yn y sectorau prosesu a phuro nwy wrth i brosiectau a chynigion i ddatgarboneiddio prosesau diwydiannol gael eu datblygu. Rydym hefyd yn parhau i ymgysylltu â Chlwstwr Ynni'r Dyfodol Dyfrffordd Aberdaugleddau, sy'n cael ei arwain gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, ac rydym yn cynnwys RWE, Valero, Dragon LNG a South Hook LNG ar gynigion i addasu asedau presennol yn Sir Benfro a allai alluogi datgarboneiddio gweithrediadau diwydiannol ac ynni yn ehangach ar draws De Cymru. |
| MATER | Gweithio gyda diwydiant i nodi prosiectau gwaredu wedi'u peiriannu posibl o fewn Clwstwr Diwydiannol De Cymru. | Amherthnasol | CYTUNO Bydd ein hastudiaeth ddichonoldeb (R2023-049) yn siapio ein safbwynt polisi ar rôl gwaredu wedi'i beiriannu yng nghyllidebau carbon a thargedau Cymru. |

| | | | |
|--|--|--|---|
| | | | <p>Mae gwaredu wedi'i beiriannu yn elfen oblygedig o'r pum gocsen datgarboneiddio a nodwyd yn Adroddiad Cynllun Clwstwr Diwydiannol De Cymru. Rydym yn cydnabod y bydd seilwaith cludo a storio carbon, a datrysiad ar gyfer cludo CO2 heb biblinell, yn hanfodol i gynhyrchu allyriadau negatif gan ddefnyddio gwaredu wedi'i beiriannu. Bydd ein hastudiaeth ddichonoldeb (R2023-049) yn siapiro ein safbwynt polisi ar rôl gwaredu wedi'i beiriannu yng nghyllidebau carbon a thargedau Cymru. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant, gan gynnwys drwy Ddiwydiant Sero Net Cymru, i bennu rôl bosibl technolegau gwaredu wedi'i beiriannu ar gyfer yr allyriadau anoddaf i'w lleihau o rai prosesau diwydiannol.</p> |
|--|--|--|---|

Sector cyhoeddus

| Cyfeirnod y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------|---|----------|---|
| R2023-028 | Ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyrraedd nod datgarboneiddio'r sector cyhoeddus ar gyfer 2030 a chynnwys y camau hyn yn eu cynlluniau corfforaethol a'u hadroddiadau. | Ch1 2024 | <p>DERBYN YN RHANNOL</p> <p>Rhaid gwneud y gwaith hwn gyda phartneriaid ac o fewn y cyfyngiadau adnoddau sy'n ein hwynebu. Yn 2021, fe wnaethom gyhoeddi'r Statws Carbon Sero Net erbyn 2030: Trywydd y Sector Cyhoeddus sy'n rhoi trosolwg o'r camau gweithredu a'r cerrig milltir sydd eu hangen er mwyn i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyflawni'r uchelgais</p> |

| | | |
|--|--|--|
| | | <p>hwn.²¹ Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Canllaw Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero Net yn 2021 (diweddarwyd yn 2023), ynghyd ag adnodd i gyrff yn y sector cyhoeddus i gyfrifo ac i adrodd ar allyriadau.²² Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth technegol a chymorth i gefnogi sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ddatgarboneiddio. Rydym hefyd yn rhedeg Rhaglen Gyllido Cymru sy'n darparu cyllid benthyciadau i gefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus.</p> <p>Mae 13 sefydliad GIG Cymru wedi datblygu cynlluniau gweithredu datgarboneiddio, ac maen nhw'n cyflawni ac yn adrodd yn eu herbyn. Mae'r cynlluniau'n nodi sut bydd y sefydliadau'n lleihau allyriadau ac yn cyfrannu at gyflawni'r Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru.²³</p> <p>Mae awdurdodau lleol, drwy Banel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol o awdurdodau cynrychioladol, wedi mabwysiadu trywydd y sector cyhoeddus i sero net erbyn 2030 fel eu fframwaith strategol²⁴, ac wedi cydgynhyrchu ymrwymadau</p> |
|--|--|--|

²¹ [Statws carbon sero net erbyn 2030: trywydd y sector cyhoeddus](#)

²² [Canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero net](#)

²³ [Cynllun cyflenwi strategol ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru](#)

²⁴ [Statws carbon sero net erbyn 2030: trywydd y sector cyhoeddus](#)

| | | | |
|-----------|--|------|--|
| | | | heriol yn Cymru Sero Net, wedi'i gymeradwyo gan bob un o'r 22 arweinydd awdurdod lleol. |
| R2023-029 | Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cytûn o ba agweddau ar lywodraeth ganolog a lleol Sero Net y mae'n gyfrifol amdanynt a sut y caiff y rhain eu cydgyssylltu. Dylai hyn arwain at ddealltwriaeth gliriach ar y cyd o rolau a chyfrifoldebau y gellir eu cyfleu ar draws llywodraeth leol. BLAENORIAETH Y PWYLLGOR | 2023 | DERBYN Mae gan lywodraeth leol rôl ehangach o ran siapio pontio i garbon isel ar draws cymdeithas. Er enghraifft, gall llywodraeth leol ddangos arweiniad ar yr agenda carbon isel drwy gynllunio lleol, adfywio a phartneriaethau gyda'r sector preifat. Byddwn yn parhau i archwilio gyda llywodraeth leol beth fyddai fwyaf defnyddiol wrth ddiffinio rolau a chyfrifoldebau y cytunwyd arnynt. |
| R2023-030 | Rhannu arfer gorau er mwyn galluogi awdurdodau lleol i wella ansawdd eu cynlluniau gweithredu ar yr hinsawdd. | 2023 | DERBYN Mae gan bob awdurdod lleol gynlluniau gweithredu datgarboneiddio ar waith. Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau datgarboneiddio awdurdodau lleol yn 2021 i ganfod bylchau, i rannu arferion da, ac i siapio cymorth CLILC. ²⁵ Mae ail adolygiad ar fin cael ei gwblhau, i'w gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn, i nodi cynnydd ac i ganolbwyntio ar gam nesaf y cymorth. |
| R2023-031 | Adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd yn y Gronfa Teithio Llesol i ddatblygu rhaglen o gyllid tymor hwy ar gyfer darpariaeth Sero Net awdurdodau lleol sy'n cyd-fynd â'u rolau a'u chyfrifoldebau a nodwyd. | 2024 | DERBYN YN RHANNOL Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddeall eu hanghenion cyllido tymor hirach yn well. Fodd bynnag, rhaid inni weithredu o fewn cyfyngiadau'r gyllideb sydd arnom, a bydd yn rhaid i sefydliadau hefyd ystyried y ffordd orau o ddefnyddio eu cyllidebau eu hunain i gefnogi cynlluniau datgarboneiddio. |

²⁵ [Cynllunio datgarboneiddio llywodraeth leol Cymru: Adolygiad \(Medi 2021\)](#)

| | | | |
|-----------|---|--------------|---|
| R2023-041 | Asesu'n llawn lefel y buddsoddiad sydd ei angen i ddatgarboneiddio adeiladau cyhoeddus a gwneud cynlluniau hirdymor ar gyfer darparu'r cyllid sydd ei angen. BLAENORIAETH Y PWYLLGOR | H1 2024 | DERBYN YN RHANNOL Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus i nodi anghenion cyllido yn y dyfodol a mynd i'r afael â'r anghenion hynny cyn belled ag y bo modd o fewn cyfyngiadau ein cyllideb. Bydd yn rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus hefyd ystyried pa opsiynau sydd ganddynt i ddefnyddio eu cyllidebau eu hunain i gefnogi cynlluniau datgarboneiddio. |
| MATER | Mae cynllun grant presennol y Gwasanaeth Ynni i fod i ddod i ben ym mis Mehefin. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud cynlluniau i sicrhau bod cyllid digonol yn parhau i fod ar gael i gefnogi datgarboneiddio'r sector cyhoeddus. | Amherthnasol | CYTUNO Rydym eisoes wedi sefydlu contract newydd yn lle'r un blaenorol a ddaeth i ben ym mis Mawrth. Bydd hyn yn darparu parhad o ran darparu gwasanaethau i sefydliadau'r sector cyhoeddus a mudiadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned ar hyd a lled Cymru. |

Nwyon wedi'u fflworeiddio

| Cyfeirnod y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------|--|--------|---|
| R2023-002 | Cymryd rhan yn y cynllun capio nwyon wedi'u fflworeiddio arfaethedig ar gyfer Prydain Fawr, naill ai dan weinyddiaeth Asiantaeth yr Amgylchedd neu drwy reoleiddiwr Cymreig. | 2023 | DERBYN Mae Cymru'n cymryd rhan yn y system Prydain Fawr i gyd i gynnal ein trywydd presennol i ostwng nwyon wedi'u fflworeiddio a rhoi'r gorau i sylweddau sy'n teneuo'r osôn (ODS), ac i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Brotocol Montreal. ²⁶ Mae'r |

²⁶ Mae ein Rheoliad F-Gas ((UE) Rhif 517/2014) yn gofyn am doriad o 79% yn y defnydd o hydrofluorocarbonau (HFCs) rhwng 2015 a 2030.

| | | | |
|-----------|---|---------|--|
| | | | <p>system yn cynnwys trefniadau cofrestru, cwota, trwyddedu ac adrodd nwyon wedi'u fflworeiddio a sylweddau sy'n teneuo'r osôn. Fe'i gweinyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar ran Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn chwarae rhan weithredol fel rheoleiddiwr.</p> <p>Er mwyn cefnogi'r gwaith o redeg systemau Prydain Fawr i gyd yn ddidrafferth, mae Fframwaith Cyffredin wedi cael ei ddatblygu ac mae'n diffinio'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol ar gyfer goruchwyllo. Mae'r Fframwaith dros dro yn nodi sut bydd Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru yn rheoli system ar draws Prydain Fawr i gyd yn ogystal â sut mae newidiadau yn y dyfodol a gwahaniaethau posibl ar faterion polisi yn cael eu rheoli.</p> |
| R2023-003 | Adolygu'r defnydd o nwyon wedi'u fflworeiddio yng ngwasanaeth iechyd Cymru a chymryd camau i addysgu clinigwyr a chleifion am effeithiau cynhesu byd-eang anadlwyr. | Parhaus | <p>DERBYN</p> <p>Mae canllawiau anadlol cenedlaethol yn argymhell rhagnodi anadlyddion carbon is fel blaenoriaeth, gyda Dangosyddion Rhagnodi Allweddol cysylltiedig yn hybu cydymffurfiaeth. Ers eu cyhoeddi, mae'r canllawiau wedi cefnogi gostyngiad am i lawr yn y nifer sy'n rhagnodi Anadlyddion Dos Mesuredig (MDIs).²⁷ Nod y canllawiau diwygiedig fydd cyflymu'r gwaith o leihau anadlyddion carbon uchel ymhellach.</p> |

²⁷ [Adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru](#)

| | | | |
|--|--|--|---|
| | | | <p>Mae deunyddiau cyfathrebu cenedlaethol i gleifion wedi cael eu datblygu ar y cyd ag Asthma and Lung UK i godi ymwybyddiaeth o effaith amgylcheddol anadlyddion. Mae'r Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol yn mynnu bod fferyllfeydd yn darparu cyngor ar 'ofal anadlol mwy gwyrdd' i gleifion sy'n cael meddyginiaethau sy'n cael eu hanadlu, gan ddefnyddio negeseuon o'r deunyddiau cyfathrebu cenedlaethol hyn.</p> <p>Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi dod â rhanddeiliaid o'r tu mewn a'r tu allan i lywodraeth yng Nghymru ac ar draws y DU at ei gilydd i gefnogi'r cynnydd ar fentrau anadlyddion.</p> |
|--|--|--|---|

Prosesau gwaredu wedi'u peiriannu

| Cyfeirnod y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------|---|--------|---|
| R2023-049 | Cynnal astudiaeth ddichonoldeb sy'n asesu potensial defnyddio gwahanol dechnolegau gwaredu wedi'u peiriannu, gan ystyried gofynion mewnbwn gan gynnwys biomas, mynediad at rwydweithiau CCS ac effeithiau ar systemau ynni. | 2024 | DERBYN Yn Cymru Sero Net, fe wnaethom ymrwymo i gynnal "astudiaeth ddichonoldeb o'r gwahanol ddulliau gwaredu, gan adeiladu ar waith presennol yn y sectorau LULUCF ac amaethyddiaeth" yn ystod Cyllideb Garbon 2. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r ffactorau a nodwyd yn argymhelliad y Pwyllgor, gan ganolbwyntio ar oblygiadau pob dull gweithredu o ran defnydd tir. Bydd yr astudiaeth |

| | | | |
|-------|---|--------------|--|
| | | | hefyd yn ystyried sut byddai dulliau gwaredu yn cael eu trin yng nghyfrif allyriadau net Cymru, er mwyn asesu eu cyfraniad posibl at dargedau a chyllidebau carbon Cymru. |
| MATER | Archwilio pa mor dderbyniol yw prosesau gwaredu wedi'u peiriannu i'r cyhoedd yng Nghymru, gan rannu gwybodaeth glir am sut mae gwahanol fathau o waredu wedi'u peiriannu yn gweithio ac ystyried barn y cyhoedd wrth benderfynu ar rôl y technolegau yn ei llwybr Sero Net. | Amherthnasol | <p>CYTUNO'N RHANNOL</p> <p>Bydd ein hastudiaeth ddichonoldeb (R2023-049) yn siapio ein safbwynt polisi ar rôl gwaredu wedi'i beiriannu yng nghyllidebau carbon a thargedau Cymru.</p> <p>Mae ein Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn ymrwmo i gynnal adolygiad o ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr argyfyngau hinsawdd a natur dros y 12 mis nesaf. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau i ystyried atebion ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig o gynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau am yr hinsawdd, gan gynnwys ar waredu wedi'i beiriannu. Os yw'n briodol, byddwn yn cynnwys gwybodaeth am waith gwaredu wedi'i beiriannu ar wefan Gweithredu ar Newid Hinsawdd i helpu'r cyhoedd i ddeall y technolegau hyn a pham mae eu hangen er mwyn i Gymru gyrraedd sero net.</p> |

Trawsbynciol

| Cyfeirnod Y Pwyllgor | Argymhelliad / Mater | Amseru | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|----------------------------|---|----------------------|---|
| R2022-199 | <p>Cyhoeddi cyswllt tryloyw a meintiol rhwng polisïau a cherrig milltir, a'r lleihad mewn allyriadau y maent yn cyfateb iddo yn y llwybrau sectoraidd a nodir yn Ail Gyllideb Garbon Cymru.</p> <p>BLAENORIAETH Y PWYLLGOR</p> | 2022 HWYR | <p>GWRTHOD</p> <p>Mae Cymru Sero Net yn cynnwys ymrwymiad i wella'r dystiolaeth sy'n sail i'n llwybrau datgarboneiddio, gan gynnwys ein dealltwriaeth o effaith carbon polisi. Rydym yn cyflawni'r ymrwymadau hyn wrth inni ddatblygu'r cynllun ar gyfer sut bydd Cymru'n bodloni Cyllideb Garbon 3 (2026-30), a fydd, mae'n debyg, yn cynnwys effaith allyriadau meintiol pob polisi. Mae Cymru Sero Net eisoes yn cynnwys amcangyfrifon meintiol o'r gostyngiad mewn allyriadau rydym yn disgwyl ei weld ar gyfer llawer o'n polisïau trafndiaeth.</p> |
| R2023-006 | <p>Cyhoeddi strategaeth datgarboneiddio ar gyfer Busnesau Cymru, gan gynnwys adolygiad o gyfleoedd i flaenoriaethu amcanion Sero Net o fewn cymhellion Llywodraeth Cymru, gofynion caffael, darpariaethau cyllid a ysgogwyr polisi cynllunio.</p> | H1 2024 | <p>DERBYN YN RHANNOL</p> <p>Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio trwy ein polisïau cymorth busnes. Byddwn yn ystyried sut y gellir hyrwyddo'r blaenoriaethau strategol a nodwyd gan y CCC ymhellach i swyddogion, busnesau, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill.</p> |
| R2023-007 | <p>Cryfhau'r cymorth sydd ar gael i BBaChau yng Nghymru i ymateb i Sero Net, gan gynnwys drwy ehangu'r cymorth sydd ar gael drwy Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru.</p> | Parhaus | <p>DERBYN YN RHANNOL</p> <p>Rydym yn cydlynu dull strategol o gefnogi busnesau bach a chanolig a'u cadwyni cyflenwi i ymateb i Sero Net. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru.</p> |

| | | | |
|-----------|---|----------|--|
| R2023-032 | Mapio'r rhyngddibyniaethau rhwng pwerau a gadwyd yn ôl a phwerau datganoledig a sut y gallent effeithio ar ddatgarboneiddio ym mhob sector economaidd a defnyddio'r canlyniadau i nodi risgiau sylweddol i gyflawni Sero Net a llunio cynllun i'w rheoli. | H1 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Mae Llwybr Cytbwys y Pwyllgor yn awgrymu bod pwerau sydd wedi'u cadw yn berthnasol i bron i 90% o'r gostyngiad sydd ei angen yng Nghymru erbyn 2050. Mae penderfyniad Prif Weinidog y DU i newid trywydd ar sero net ym mis Medi 2023 yn dangos y risg sylweddol sy'n deillio o'r trefniadau statudol presennol, lle mae Gweinidogion Cymru yn dibynnu i raddau helaeth ar weithredoedd Llywodraeth y DU.</p> <p>Bydd yr ymarfer mapio hwn yn ddefnyddiol wrth ddatblygu ein cynllun i fodloni Cyllideb Garbon 3 (2026-30), a fydd yn cynnwys sut rydym yn bwriadu rheoli unrhyw risgiau sylweddol a nodwyd.</p> |
| R2023-046 | Symud ymlaen â chynlluniau i ddatblygu strategaeth hirdymor i hyrwyddo newid dietegol, ac ystyried integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd yn benodol ac ystyried gosod targedau ar gyfer sifftiau dietegol. | H1 2024 | <p>DERBYN YN RHANNOL</p> <p>Mae adrannau'r Amgylchedd, Materion Gwledig ac Iechyd yn cydweithio ar ddull newydd am newid deietau, gan gynnal dadansoddiad systemau ar raddfa fawr o ddewisiadau deiet poblogaeth Cymru. Bydd y dadansoddiad yn cynnwys archwilio pwyntiau trosoledd allweddol a chyfleoedd i gyflawni newid ymddygiad positif.</p> |
| R2023-047 | Cyhoeddi'r 'Strategaeth ar gyfer Ymgysylltu a Gweithredu'r Cyhoedd' newydd, a'r ymgyrch a gwefan genedlaethol newydd 'Gweithredu ar Newid Hinsawdd' yn haf 2023, gan gynnwys pynciau allweddol megis teithio ar y ffyrdd ac awyr, deiet a gwresogi cartrefi. Sefydlu dull monitro | Ch3 2023 | <p>DERBYN</p> <p>Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a lansio gwefan Gweithredu ar Hinsawdd Cymru.²⁸ Ym mis Medi, fe</p> |

²⁸ [Gweithredu ar Newid Hinsawdd: Strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd 2023 i 2026](#) a [Gweithredu ar Newid Hinsawdd](#)

| | | | |
|-----------|--|----------|--|
| | effeithiol i olrhain effeithiolrwydd cyfathrebu ac ymgyrchoedd ymgysylltu â'r cyhoedd, a rhannu gwersi a ddysgwyd â Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill. | | wnaethom ddechrau ein hymgyrch cyfryngau cenedlaethol yn hyrwyddo dewisiadau gwyrdd. |
| R2023-048 | Gosod strategaeth i gefnogi pontio teg. | 2024 | DERBYN Byddwn yn ymgynghori ar Fframwaith Pontio Teg ym mis Rhagfyr 2023 gyda'r bwriad o gyhoeddi dogfen derfynol yn 2024. Nod y Fframwaith yw dod â chydlynid i gynllunio pontio teg. Bydd yn nodi gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y pontio teg, yr egwyddorion i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i arwain y pontio. |
| R2023-051 | Adolygu rhaglenni sgiliau a hyfforddiant presennol ar y cyd â'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr a nodi sut y bydd y rhain yn cau bylchau Sgiliau Sero Net a lle mae angen cynlluniau newydd i fynd i'r afael â bylchau. | Ch1 2024 | DERBYN Ym mis Hydref, fe wnaethom lansio ymgynghoriad sgiliau sector sero net ²⁹ sy'n ceisio adeiladu ar yr wybodaeth a'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r cynllun gweithredu sgiliau sero net. ³⁰ Mae'r ymgynghoriad yn nodi ein dealltwriaeth bresennol o sefyllfa sgiliau pob sector allyriadau a'i nod yw nodi pa sgiliau sydd eu hangen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cynnwys cyhoeddi mapiau sector a fydd yn rhoi manylion cerrig milltir allweddol, a chatau gweithredu i gefnogi anghenion sgiliau. Mae ymgysylltiad cryf â rhanddeiliaid yn parhau i helpu i gefnogi a chael gwybodaeth am anghenion y sector sy'n dod i'r amlwg. Mae gweithgor sero net |

²⁹ [Ymgynghoriad sgiliau sector sero net](#)

³⁰ [Cynllun gweithredu sgiliau sero net](#)

| | | | |
|-----------|--|------|---|
| | | | ar gyfer y pedair gwlad wedi cael ei sefydlu ar lefel swyddogol i hyrwyddo dull gweithredu cydgysylltiedig ac i rannu arferion da a'r gwersi a ddysgwyd o bob cwr o'r gwledydd. |
| R2023-052 | Diffinio'r gofynion o ran sgiliau a'r gweithlu ar gyfer gweithgynhyrchu carbon isel yng Nghymru a datblygu polisiau i gefnogi eu cyflawni. | 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Ym mis Hydref, fe wnaethom lansio ymgynghoriad sgiliau sector sero net³¹ sy'n ceisio adeiladu ar yr wybodaeth a'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r cynllun gweithredu sgiliau sero net.³² Mae'r ymgynghoriad yn nodi ein dealltwriaeth bresennol o sefyllfa sgiliau pob sector allyriadau a'i nod yw nodi pa sgiliau sydd eu hangen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cynnwys cyhoeddi mapiau sector a fydd yn rhoi manylion cerrig milltir allweddol, a chamau gweithredu i gefnogi anghenion sgiliau.</p> <p>Mae ymgysylltiad cryf â rhanddeiliaid yn parhau i helpu i gefnogi a chael gwybodaeth am anghenion y sector sy'n dod i'r amlwg. Mae gweithgor sero net ar gyfer y pedair gwlad wedi cael ei sefydlu ar lefel swyddogol i hyrwyddo dull gweithredu cydgysylltiedig ac i rannu arferion da a'r gwersi a ddysgwyd o bob cwr o'r gwledydd.</p> |
| R2023-055 | Adeiladu ar broses Cynulliad Hinsawdd y DU ac ystyried creu Cynulliad Hinsawdd i Gymru, gan gynnwys mynd i'r afael ag agweddau ar bolisi newid yn yr hinsawdd sy'n | 2024 | <p>DERBYN</p> <p>Mae'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd newydd yn ymrwymo i gynnal adolygiad i bennu i ba raddau y mae ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr argyfyngau</p> |

³¹ [Ymgynghoriad sgiliau sector sero net](#)

³² [Cynllun gweithredu sgiliau sero net](#)

| | | | |
|-------|---|------------------|--|
| | rhyngweithio'n fwyaf arwyddocaol â bywydau bob dydd pobl neu a allai fod yn heriol. | | hinsawdd a natur eisoes yn digwydd ar hyd a lled Cymru, a chan bwy. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau i ystyried atebion ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig o gynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau am yr hinsawdd, gan gynnwys rôl Llywodraeth Cymru a'r dull(iau) mwyaf effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa genedlaethol. Mae nifer o gynulladau hinsawdd wedi cael eu cynnal yng Nghymru yn barod, sy'n cynnig gwersi i ni. |
| MATER | Adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd i sicrhau bod meysydd eraill o wneud penderfyniadau yn cyd-fynd yn yr un modd â'r llwybr Sero Net. | Amherthn asol | CYTUNO Un o'r rhesymau dros yr Adolygiad Ffyrdd oedd sicrhau bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn ffyrdd yn cyd-fynd â Cymru Sero Net. Yn yr un modd, rydym yn gwella ein proses asesu effaith carbon er mwyn rhoi gwybodaeth well a mwy cyson i Weinidogion am effaith debygol eu penderfyniadau ar allyriadau. Mae hyn yn cynnwys gofyniad newydd i swyddogion sy'n cynnal asesiad carbon llawn ystyried a yw eu cynnig yn cyd-fynd â'r cynllun rydym wedi'i gyhoeddi ar gyfer cyflawni'r gyllideb garbon. |
| MATER | Dylid defnyddio'r strwythurau sy'n galluogi'r gwledydd i gydweithio i gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig yn y broses o ddatblygu polisiâu a gwneud penderfyniadau yn y cyfnod cynnar ar feysydd a fydd yn effeithio ar eu hawdurdodaethau. Dylai'r trafodaethau hyn archwilio synergeddau rhwng nodau a chynlluniau'r llywodraethau priodol i sicrhau'r buddion mwyaf posibl ledled y DU. | | CYTUNO Mae penderfyniad unochrog y Prif Weinidog i newid trywydd ar sero net ym mis Medi 2023 yn dangos dirmyg Llywodraeth y DU at Lywodraeth Cymru a llywodraethau datganoledig eraill ar faterion polisi hinsawdd. Mae'n amlwg nad yw'r broses allweddol ar gyfer cydweithio rhwng pedair gwlad y DU, y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd, yn gweithredu yn ôl y bwriad. |

| | | | |
|--|--|--|---|
| | | | <p>Felly, rydym ni a Llywodraeth yr Alban wedi galw am bartneriaeth newydd o aelodau sy'n parchu ei gilydd, gyda'r nod o ddatblygu dull gweithredu pedair gwlad ar gyfer sero net mewn modd cydweithredol. Yn y lle cyntaf, gwnaethom gais am uwchgynhadledd frys ar lefel uchel ar draws y pedair gwlad, o dan gadeiryddiaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd.</p> |
|--|--|--|---|

Ymateb Llywodraeth y DU i asesiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd o'r meysydd risg uchel

| Maes | Asesiad risg y Pwyllgor Newid Hinsawdd | Ymateb Llywodraeth y DU |
|------------------|---|---|
| Cyflenwad trydan | Nid oes gan Lywodraeth y DU strategaeth gyflawni o hyd ar gyfer eu hamcan ar gyfer 2035 [i ddatgarboneiddio'r cyflenwad trydan]. | Mae'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) yn cydnabod gwerth cynllun trosfwaol byr sy'n nodi sut mae'r polisiau'n dod at ei gilydd i ddatgarboneiddio ein system drydan, ar yr un pryd â darparu system ddibynadwy sy'n lleihau'r costau i ddefnyddwyr. Mae Llywodraeth y DU yn gweithredu dull 'system gyfan' i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ei hamcanion ar gyfer adeiladu system drydan y dyfodol a bydd yn defnyddio technegau dadansoddi a rheoli portffolio i lywio ein safbwynt. Bydd DESNZ yn rhoi rhagor o fanylion am ei chynnydd. Bydd Llywodraeth y DU yn cadw'r hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau sy'n newid, datblygu fframweithiau marchnad sy'n cymell system gost isel a dibynadwy ac yn rhoi cyfle i arloesi i ddatblygu dulliau newydd a lleihau costau, gan sicrhau ar yr un pryd ei bod yn parhau ar y trywydd iawn i sicrhau datgarboneiddio dwfn yn y sector pŵer sy'n cyd-fynd â'r llwybr allyriadau a nodir yn y <i>Strategaeth Sero Net</i> . ³³ |
| Diwydiant | Mae diffyg gweithredu ar lefel y DU yn arbennig o amlwg ar gyfer trydaneiddio diwydiannol ac effeithlonrwydd adnoddau – dau faes hanfodol o ddatgarboneiddio diwydiannol. | Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn darparu cymorth ar gyfer newid tanwydd (gan gynnwys trydaneiddio) drwy'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF) ³⁴ ac IETF yr Alban, sy'n rhoi grantiau i helpu gyda chostau ymlaen llaw gosod neu ôl-osod offer diwydiannol sy'n gysylltiedig â thrydaneiddio prosesau diwydiannol, a'r Gystadleuaeth Newid Tanwydd Diwydiannol (IFSC), sy'n darparu cyllid arloesi ar gyfer trydaneiddio a thechnolegau galluogi. ³⁵ Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod sawl rhwystr i newid tanwydd i drydan. Er enghraifft, mae trydan yn ddrutach o lawer na nwy naturiol ar hyn o bryd. Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gais am Dystiolaeth ar newid tanwydd i drydaneiddio. ³⁶ Bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio i feithrin gwell dealltwriaeth o |

³³ [Strategaeth Sero Net: Dod yn ôl yn Wyrddach](#) (Llywodraeth y DU, 2022)

³⁴ [Y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol](#)

³⁵ [Cystadleuaeth Newid Tanwydd Diwydiannol](#)

³⁶ [Galluogi trydaneiddio diwydiannol: cais am dystiolaeth](#)

| | | |
|--|--|--|
| | | <p>rôl trydaneiddio mewn diwydiant, yr heriau mae diwydiant yn eu hwynebu wrth ystyried opsiynau trydaneiddio ac i brofi syniadau polisi ar gam cynnar. Bydd hyn wedyn yn galluogi'r llywodraeth i ddylunio'r fframwaith polisi gorau posibl i oresgyn rhwystrau a rheoli'r rhyngweithio â'r system ehangach, fel yr Adolygiad o Drefniadau'r Farchnad Drydan (REMA)³⁷ a rhwydweithiau trydan yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r gwaith wedi parhau drwy gydol 2023 ar brosiect ymchwil ar y cyd gan DESNZ a Defra sy'n ymchwilio i'r potensial i ddatgloi arbedion carbon o fesurau effeithlonrwydd adnoddau. Cefnogir yr ymchwil gan weithgor trawslywodraethol, gan gynnwys timau gwastraff ac adnoddau mewn llywodraethau datganoledig. Mae'r ymchwil yn ystyried 11 o sectorau diwydiannol, sy'n amrywio o ddiwydiant trwm i wneuthurwyr nwyddau defnyddwyr. Bydd yr ymchwil yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisiâu effeithlonrwydd adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn sicrhau arbedion carbon mewn diwydiant ar draws y DU gyfan, gan adeiladu ar y fframwaith strategol a amlinellir yn rhaglen 2023 'Cynyddu Adnoddau, Lleihau Gwastraff'³⁸ a'r <i>Cynllun Cyflawni Cyllideb Carbon</i>.³⁹ Bydd datblygu polisi effeithlonrwydd adnoddau yn ystyried y gadwyn gwerth cynnyrch lawn, ar draws camau cynhyrchu, defnyddio a diwedd oes, gan geisio darparu llwybr atal cynaliadwy sy'n cefnogi nodau datgarboneiddio ac amgylcheddol ehangach. Bydd hyn yn ategu polisiâu, fel diwygiadau i eco-labelu a safonau cynnyrch, gyda'r nod o annog defnyddwyr i wneud dewisiadau gwyrdd. Mae rhaglen 2023 Cynyddu Adnoddau, Lleihau Gwastraff yn nodi cynlluniau i ddefnyddio data ac offer digideiddio i gefnogi mwy o ddefnydd o ddeunyddiau eilaidd a chynhyrchion wedi'u defnyddio, yn ogystal â chynyddu tryloywder o ran cynnydd yn erbyn targedau lleihau gwastraff.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym hefyd ar brosiectau arloesol a fydd yn gwella</p> |
|--|--|--|

³⁷ [Adolygu trefniadau'r farchnad drydan](#)

³⁸ [Rhaglen atal gwastraff i Loegr: Cynyddu Adnoddau, Lleihau Gwastraff](#)

³⁹ [Cynllun Cyflawni Cyllideb Carbon](#) (Llywodraeth y DU, 2023)

| | | |
|-----------|--|---|
| | | <p>data ar draws llifoedd deunyddiau penodol, gan gynnwys Canolfan Gwybodaeth am Fwynau Critigol y DU, prosiect Gwybodaeth Cadwyn Gyflenwi'r Adran Masnach Ryngwladol, a System Orlhain Gwastraff Defra. Mae gwaith trawsbynciol gan yr Hyb Data Economi Gylchol, rhan o raglen Ymchwil Economi Gylchol Ryngddisgyblaethol Genedlaethol (NICER) UKRI ar arsyllfa data, yn rhoi rhagor o astudiaethau achos a gwybodaeth am sut gall buddsoddi mewn data gefnogi twf yn yr economi gylchol.⁴⁰</p> |
| Diwydiant | <p>Mae diffyg eglurder hefyd o ran yr hyn y mae rhai o bolisiau'r DU yn ei olygu i Gymru. Er enghraifft, gan nad yw SWIC [Clwstwr Diwydiannol De Cymru] yn glwstwr Trac 1, nid yw'n glir sut y caiff diwydiant Cymru ei gefnogi i fabwysiadu dal a storio carbon a hydrogen. Mae gan Lywodraeth y DU fecanweithiau polisi manwl ar gyfer dal a storio carbon a hydrogen. Fodd bynnag, mae'r rhain yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar glystyrau diwydiannol gyda mynediad i storio carbon deuocsid yn lleol. Nid yw'n glir sut bydd y rhan fwyaf o safleoedd diwydiannol yng Nghymru yn</p> | <p>Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i ddatblygu ymhellach Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS), ac mae'n dal i archwilio datblygiad opsiynau piblinell ac opsiynau nad ydynt yn rhai piblinell ar gyfer safleoedd y tu allan i leoliadau Pennu Dilyniant o Glystyrau CCUS Trac-1 a rhyngweithio posibl â chymorth modelau busnes. Bydd y broses Trac-2 yn sefydlu 2 glwstwr dal, defnyddio a storio carbon newydd. Mae Llywodraeth y DU wedi dod i'r casgliad bod systemau cludo a storio Acorn a Viking, oherwydd eu haeddfedrwydd, yn parhau i fod yn y sefyllfa orau i gyflawni ein hamcanion ar gyfer Trac-2, ar hyn o bryd, yn amodol ar benderfyniadau terfynol, diwydrwydd dyladwy, cydsynio, rheoli cymorthdaliadau, fforddiadwyedd ac asesiadau gwerth am arian. Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn glir bod yn rhaid i system T&S Acorn a Viking ddangos yn glir y potensial i dderbyn a storio CO2 drwy gludiant heb fod yn bibell (NPT) mewn cyfnod sy'n cyd-fynd ag amcanion Trac-2. Er y bydd y prosiectau cychwynnol yn cysylltu â'r storfa drwy biblinell, bydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu ei pholisi NPT maes o law i hwyluso'r broses o gysylltu prosiectau a chlystyrau sy'n dibynnu ar NPT, yn amodol ar ffactorau sy'n cynnwys diwydrwydd dyladwy ac asesu gwerth am arian. Bydd yn nodi gweledigaeth ar gyfer sector dal, defnyddio a storio carbon y DU yn nes ymlaen yn 2023 i godi hyder ac i wella gwelededd i fuddsoddwyr. Ar ben hynny, mae Llywodraeth y DU yn rhoi hyd at £5 miliwn ar gyfer safleoedd gwasgaredig i ddatblygu cynlluniau strategol sy'n seiliedig ar ardaloedd i ddatgarboneiddio, sy'n dechnoleg agnostig ac a allai hwyluso meddwl strategol ar rwydweithiau da, defnyddio a storio carbon gwasgaredig mewn gwahanol leoliadau.</p> |

⁴⁰ [Hyb Economi Gylchol](#)

| | | |
|--------------------------|---|--|
| | cael eu cefnogi i fabwysiadu'r technolegau hyn. | |
| Diwydiant | Er mwyn cyflawni datgarboneiddio diwydiannol yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth y DU gyflwyno polisiau i ddiogelu diwydiant lleol rhag mewnfurion carbon uchel. | <p>Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd gweithio'n rhyngwladol i fynd i'r afael â dadleoli carbon a'r angen i ystyried polisiau domestig hefyd i sicrhau bod ymdrechion datgarboneiddio'r DU yn arwain at ostyngiad go iawn mewn allyriadau byd-eang.</p> <p>Ar 30 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad yn edrych ar amrywiaeth o fesurau polisi posibl i liniaru'r risg o ddadleoli carbon yn y dyfodol a sicrhau bod gan ddiwydiant y DU yr amgylchedd polisi gorau posibl i ddatgarboneiddio.⁴¹ Mae polisiau posibl yn cynnwys mecanwaith addasu ffiniau carbon, safonau cynnyrch gorfodol, a mesurau polisi eraill i helpu i dyfu'r farchnad ar gyfer cynhyrchion carbon isel, yn ogystal ag adroddiadau ar allyriadau a allai helpu i roi polisiau lliniaru posibl ar waith.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yna bydd yn cyhoeddi ymateb.</p> |
| Cyflenwad tanwydd ffosil | Rydym wedi nodi mewn llythyrau diweddar at y Llywodraeth ein barn am y dystiolaeth aruthrol yn erbyn caniatadau newydd ar gyfer chwilio am lo neu gynhyrchu glo, a'n cefnogaeth i derfynau llymach ar gynhyrchu olew a nwy yn y DU, gyda phrofion llym a rhagdybiaeth yn erbyn chwilio. | <p>Mae cyfran y trydan sy'n cael ei gynhyrchu drwy ddefnyddio glo yn y DU eisoes wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf – o bron i 40% yn 2012 i tua 2% yn 2022. Yn unol â tharged sero net y DU, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i roi'r gorau i gynhyrchu pŵer glo yn barhaus erbyn 2024 ac mae disgwyl i'r holl orsafoedd pŵer glo sydd ar ôl ym Mhrydain Fawr gau cyn y dyddiad hwn.</p> <p>O ganlyniad, mae'r galw am drwyddedau glo newydd wedi gostwng a dim ond nifer fach iawn o brosiectau glo posibl sydd ar y gweill a allai arwain at gloddio glo newydd.</p> <p>Fodd bynnag, mae rôl bwysig i echdynnu glo ar gyfer y diwydiant dur; fel asiant lleihau, ffynhonnell ynni a charbon ar gyfer y cynnyrch terfynol. Byddai gostyngiad sylweddol yn y defnydd o lo wrth wneud dur yn golygu buddsoddiadau mawr mewn dewisiadau amgen.</p> |

⁴¹ [Mynd i'r afael â risg dadleoli carbon i gefnogi datgarboneiddio](#)

| | | |
|--------------------|--|--|
| | | <p>Byddai angen llawer o newidiadau i ddyletswyddau'r Awdurdod Glo i sefydlu cyfundrefn orfodi iddynt fonitro pwrpas a defnydd terfynol glo sy'n cael ei gloddio. Mae rhoi'r gorau i gynhyrchu pŵer glo yn y dyfodol yn ymateb mwy cyfrannol na chyflwyno trefn reoleiddio newydd ym mhen cloddio glo'r gadwyn gynhyrchu.</p> <p>Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol eisoes yn nodi na ddylid rhoi caniatâd cynllunio i gloddio glo oni bai fod y cynnig yn amgylcheddol dderbyniol, neu y gellir gwneud hynny drwy amodau neu rwymedigaethau cynllunio; neu os nad yw'n amgylcheddol dderbyniol, yna mae'n darparu manteision cenedlaethol, lleol neu gymunedol sy'n amlwg yn drech na'i effeithiau tebygol (gan ystyried yr holl faterion perthnasol, gan gynnwys unrhyw effeithiau amgylcheddol gweddilliol).⁴²</p> <p>Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi Pwynt Gwirio Cydnawsedd Hinsawdd ar waith i weld a yw cynnig trwyddedau olew a nwy newydd yn parhau i fod yn gydnaws â chyrraedd targedau hinsawdd y DU.⁴³ Mae'r profion allyriadau yn y Pwynt Gwirio yn rhoi gwybodaeth allweddol i Weinidogion i asesu effeithiau cynhyrchu domestig ar yr hinsawdd. Mae'r Pwynt Gwirio hefyd yn edrych ymlaen i ragweld a fydd y DU yn parhau i fod yn fewnforiwr olew a nwy net; nid yw cynhyrchu llai yn ddomestig er mwyn cynyddu ein dibyniaeth ar fewnforion yn ddefnyddiol yn amgylcheddol, yn economaidd nac o ran cynnal sgiliau alltraeth a chadwyni cyflenwi ar gyfer y pontio.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y targedau datgarboneiddio yng Nghytundeb Pontio Môr y Gogledd i leihau allyriadau o weithrediadau i 50% o lefelau 2018 erbyn 2030 yn uchelgeisiol ac yn helpu i leihau allyriadau'n sylweddol, gan sicrhau yn y pen draw bod Sgafell Gyfandirol y DU yn cyrraedd sero net erbyn 2050.</p> |
| Cyflenwad hydrogen | Rydym wedi galw ar Lywodraeth y DU i gwblhau | Mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n gyflym i gwblhau mecanweithiau cyllido ac i ddyrannu cyllid i gefnogi ei huchelgais am hyd at 10GW o gapasiti cynhyrchu hydrogen. |

⁴² [Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol \(Lloegr\)](#)

⁴³ [Dylunio pwynt gwirio cydnawsedd hinsawdd](#)

| | | |
|--------------------------------|--|--|
| | <p>mecanweithiau ariannu i gefnogi datblygiad cynhyrchu hydrogen carbon isel a chyflymu'r gwaith o ddatblygu modelau busnes ar gyfer cludo a storio hydrogen, y mae'r ddau yn cael eu hystyried yn hanfodol i gyflenwi diwydiant hydrogen.</p> | <p>Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y contract Model Busnes Cynhyrchu Hydrogen (HPBM) – y Cytundeb Hydrogen Carbon Isel (LCHA).⁴⁴ Ei nod yw cyhoeddi'r prosiectau llwyddiannus a fydd yn cael cynnig contractau HPBM a grantiau Cronfa Hydrogen Sero Net drwy'r rownd dyrannu hydrogen electrolytig gyntaf yn Ch4 2023, a thrwy'r broses pennu dilyniant o glystyrau ar gyfer prosiectau a alluogir gan Ddal, Defnyddio a Storio Carbon o 2024 ymlaen, yn amodol ar faterion fel diwydrwydd dyladwy a thrafodaethau.</p> <p>Yn nes ymlaen eleni, bydd Llywodraeth y DU yn lansio proses i ganfod ac i ddewis prosiectau ychwanegol, hyfyw yn y clystyrau Dal, Defnyddio a Storio Carbon Trac-1 a all ddod yn weithredol erbyn 2030 yn ogystal â thrwy'r broses Trac 2. Mae'n bwriadu lansio'r ail rownd dyrannu hydrogen electrolytig eleni, ac yn gynharach eleni cyhoeddodd Gais am Dystiolaeth ar symud i rowndiau dyrannu cystadleuol blyneddol. Disgwylir i gynhyrchu hydrogen gydymffurfio â gofynion Safon Hydrogen Carbon Isel y DU i gael cymorth o dan yr HPBM a'r NZHF.</p> <p>Bydd seilwaith cludo a storio hydrogen yn hanfodol i alluogi ein huchelgeisiau hydrogen, gan sicrhau buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat ar draws y DU. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei safbwynt a'i hymateb i'r Ymgynghoriad ar Seilwaith Storio a Thrafnidiaeth Hydrogen ar 2 Awst 2023.⁴⁵</p> |
| Cyflenwad bio-ynni | <p>Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n flaenorol i gyhoeddi Strategaeth Biomas yn 2022 ... nid yw hwn wedi'i gyhoeddi eto.</p> | <p>Cyhoeddwyd y Strategaeth Biomas ym mis Awst 2023.⁴⁶</p> |
| Cartrefi sy'n eiddo i berchen- | <p>Mae llawer o bolisiau a fydd yn hanfodol i</p> | <p>Mae Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddeddfu ar gyfer cyflwyno'r Mekanwaith Marchnad Gwres Glân drwy'r Ddeddf Ynni bresennol. Mae rheoliadau</p> |

⁴⁴ [Model busnes cynhyrchu hydrogen](#)

⁴⁵ [Cynigion ar gyfer modelau busnes storio a thrafnidiaeth hydrogen](#)

⁴⁶ [Strategaeth Biomas](#) (Llywodraeth y DU, 2023)

| | | |
|---|---|---|
| feddianwyr a chartrefi sy'n cael ei rhentu'n breifat (heb fod yn dlawd o ran tanwydd) | ddatgarboneiddio adeiladau yn dal i gael eu datblygu gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys: * y mecanwaith seiliedig ar y farchnad ar gyfer gwres carbon isel | cynllun drafft yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Senedd maes o law, cyn lansio'r cynllun yn 2024. Ers mis Ebrill 2020, mae'n rhaid i gartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat yng Nghymru a Lloegr fodloni safon sylfaenol Tystysgrif Perfformiad Ynni Band E cyn ceir eu rhentu, oni bai fod eithriad dilys yn berthnasol. Yn ei araith ar 20 Medi 2023, cyhoeddodd y Prif Weinidog na fydd Llywodraeth y DU yn mynnu bod landlordiaid yn gwella effeithlonrwydd ynni eu heiddo i safonau uwch na'r rheini sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn parhau i annog aelwydydd i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi lle bynnag y gallant wneud hynny. Mae'n gwario £6.6 biliwn y Senedd hon a £6 biliwn arall hyd at 2028 ar wneud adeiladau'n lanach ac yn gynhesach. Mae hynny'n ychwanegol at y £5 biliwn a fydd yn cael ei ddarparu drwy'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO4) a Chynllun Insiwleiddio Prydain Fawr hyd at fis Mawrth 2026. |
| | * diweddarau'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol ar gyfer cartrefi rhent preifat | |
| | * dyddiadau dirwyn i ben ar gyfer boeleri tanwydd ffosil | |
| | * cymhellion ariannol i gefnogi ôl-osod eang mewn adeiladau | Fel y nododd y Prif Weinidog mewn araith ar Sero Net ar 20 Medi, nod Llywodraeth y DU yw rhoi'r gorau i osod systemau gwresogi tanwydd ffosil newydd neu eu cyfnewid am rai yr un fath, ar gyfer pob aelwyd, gan gynnwys rhai oddi ar y grid nwy yn Lloegr, o 2035 ymlaen, lle mae'n amlwg y bydd pwmp gwres neu dechnoleg wresogi carbon isel arall yn gweithio'n effeithiol. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser ar gyfer y pontio, ac yn sicrhau na fydd angen i aelwydydd wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni mawr (fel inswleiddio walïau solet drud) er mwyn cydymffurfio â'r polisi. |
| | * gwelliannau i Dystysgrifau Perfformiad Ynni ac asesiadau Tystysgrif Perfformiad Ynni | Mae Llywodraeth y DU yn cytuno y gellir gwella'r metrigau a'r wybodaeth a ddarperir ar Dystysgrifau Perfformiad Ynni. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar gynigion i wella metrigau'r Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), gan ystyried argymhellion y Pwyllgor, ac mae'n bwriadu ymgynghori ar y rhain dros y misoedd nesaf. |
| | Mae llawer o bolisiâu a fydd yn hanfodol i ddatgarboneiddio adeiladau | Roedd y cyhoeddiad <i>Pweru Prydain</i> yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gwasanaeth cyngor penodol ar ynni digidol i fusnesau bach a chanolig ac ar gyfer cynllun peilot sy'n cynnig grantiau ac asesiadau ynni â chymhorthdal ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni. |

| | | |
|------------------------|--|--|
| | <p>amhreswyl yn dal i gael eu datblygu gan Lywodraeth y DU.</p> | <p>Mae Llywodraeth y DU wedi cwblhau'r gwerthusiad o'r gystadleuaeth Hybu Mynediad Busnesau Bach a Chanolig at Effeithlonrwydd Ynni (BASEE) a bydd yn cyhoeddi'r canlyniadau yn nes ymlaen eleni.</p> <p>Mae wedi adolygu'r ymatebion i'w hymgyngoriad ar safonau gofynnol effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat annomestig ac mae'n gweithio'n galed i adolygu dyluniad y polisi i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn deg ac yn briodol i landlordiaid ac i denantiaid. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi hyn maes o law. Bydd angen diweddarau'r amserlenni arfaethedig yn yr ymgynghoriad gwreiddiol er mwyn caniatáu digon o amser paratoi ar gyfer landlordiaid a'r gadwyn gyflenwi.</p> |
| Hedfan – rheoli'r galw | <p>Mae Strategaeth Sero Jet Llywodraeth y DU yn ymrwmo i gynyddu nifer y teithwyr terfynfa 70% o'i gymharu â lefelau 2018 erbyn 2050. Mae llwybr hedfanaeth Llywodraeth y DU yn dibynnu ar radio a defnyddio technoleg eginol yn gymharol gyflym at ddibenion masnachol. Nid oes fframwaith polisi ar waith a fyddai'n lliniaru twf y galw pe na bai'r technolegau hyn yn cael eu defnyddio fel y cynlluniwyd.</p> | <p>Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU yn y <i>Strategaeth Sero Jet</i> yn dangos y gall y DU gyflawni ei thargedau sero net drwy ganolbwyntio ar danwyddau a thechnoleg newydd, yn hytrach na chapio'r galw, gyda manteision economaidd a chymdeithasol canlyniadol.⁴⁷</p> <p>Mae modelu'r <i>Strategaeth Sero Jet</i> yn rhagweld cynnydd o 70% yn nheithwyr terfynfa'r DU erbyn 2050 o'i gymharu â lefelau 2018. Mae'r modelu bellach wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r amodau macroeconomaidd diweddaraf a gyhoeddwyd yn y ddogfen <i>Strategaeth Sero Jet Blwyddyn yn Ddiweddarach</i>.⁴⁸ Mae'r modelu diweddaraf wedi lleihau'r twf y galw gan deithwyr a ragwelir i 52% yn 2050 o'i gymharu â lefelau 2018 o dan senario "uchelgais uchel" y <i>Strategaeth Sero Jet</i>. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i adolygu'r <i>Strategaeth Sero Jet</i> bob pum mlynedd i sicrhau bod y sector hedfan ar y trywydd iawn i gyflawni sero net erbyn 2050. Os bydd yn canfod nad yw'r sector ar y trywydd iawn, bydd yn ystyried pa fesurau pellach y gallai fod eu hangen.</p> |

⁴⁷ [Strategaeth Sero Jet \(Llywodraeth y DU, 2022\)](#)

⁴⁸ [Strategaeth Sero Jet: blwyddyn yn ddiweddarach](#) (Llywodraeth y DU, 2023)

| | | |
|----------------------------------|---|--|
| <p>Tanwydd hedfan cynaliadwy</p> | <p>Mae ymgynghoriad mandad y tanwydd hedfan cynaliadwy wedi'i ohirio ac mae angen iddo fod yn weithredol erbyn 1 Ionawr 2025.</p> | <p>Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo o'r blaen i gael y ddeddfwriaeth mandad Tanwydd Hedfan Cynaliadwy (SAF) ar waith erbyn 2025 ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni hyn.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cadarnhau mai dim ond tanwyddau sy'n cyflawni'r arbedion mwyaf o ran nwyon tŷ gwydr ac sy'n cael yr effeithiau lleiaf anuniongyrchol y bydd y mandad tanwydd hedfan cynaliadwy yn eu cefnogi. Roedd ail ymgynghoriad y mandad tanwydd hedfan cynaliadwy yn nodi'r meini prawf a'r methodolegau cynaliadwyedd arfaethedig i warantu hyn. Mae llawer o hyn yn seiliedig ar y meini prawf sydd wedi'u hen sefydlu yn y Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy, sydd â system gydnabyddedig o fonitro a chydymffurfio ar gyfer tanwyddau adnewyddadwy. Bydd Llywodraeth y DU yn cadarnhau ei meini prawf cynaliadwyedd terfynol yn ymateb y llywodraeth i ail ymgynghoriad y mandad tanwydd hedfan cynaliadwy erbyn diwedd 2023. Bydd canllawiau cydymffurfio manwl yn cael eu cyhoeddi pan fydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gosod yn y senedd.</p> |
| <p>Cludo</p> | <p>Mae datgarboneiddio morol ehangach yn dibynnu ar y defnydd o longau di-allyriadau gan weithredwyr morgludiant cenedlaethol ac amlwladol a darparu'r seilwaith ail-lenwi gofynnol mewn porthladdoedd cyrchfan ledled gweddill y DU a thramor.</p> | <p>Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi buddsoddi mewn tanwyddau morol carbon isel a'u defnyddio.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae UK SHORE yn rhaglen Ymchwil a Datblygu gwerth £206 miliwn sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant gan ganolbwyntio ar dechnolegau sy'n angenrheidiol i ddatgarboneiddio'r sector morol domestig. 2. Fel rhan o'r Cynllun Morol Glân diwygiedig, bydd Llywodraeth y DU yn nodi polisïau a fydd yn cynyddu'r defnydd o danwyddau morol carbon isel.⁴⁹ 3. Bydd y strategaeth yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer rôl tanwydd carbon isel o ran cyflawni ymrwymadau Sero Net Llywodraeth y DU erbyn 2050. Fel rhan o'r strategaeth, bydd yr Adran Drafnidiaeth yn nodi senarios galw ar gyfer gwahanol fathau o danwydd carbon isel ar sail y modelu presennol a'r data ar argaeledd (cyflenwad) porthiant a'r galw posibl; bydd y rhain yn helpu i nodi risgiau a chyfleoedd, gan gynnwys lle gallai gwahanol sectorau gystadlu am yr un porthiant a thanwyddau. |

⁴⁹ [Cynllun morol glân: Trywydd amgylchedd morol 2050](#) (Llywodraeth y DU, 2019)

